

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

20/03/2013

Cynnwys Contents

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Perfformiad Llywodraeth Cymru](#)
[Welsh Conservatives Debate: The Welsh Government's Performance](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Agenda Lleoliaeth yng Nghymru](#)
[Welsh Conservatives Debate: Welsh Localism Agenda](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.

The Assembly met at 1.30 p.m. with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Perfformiad Llywodraeth Cymru

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.

Cynnig NDM5194 William Graham

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi methiant llwyr a chyson Llywodraeth Cymru i sicrhau gwelliannau ym mywydau pobl Cymru, yn benodol ei:

- a) anallu i ddatblygu economi Cymru;
- b) methiant i gau bylchau cyrhaeddiad allweddol mewn addysg;
- c) perfformiad gwael o ran cyrraedd targedau amseroedd aros ac ymateb y GIG; a
- d) aneffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd tlodi.

Welsh Conservatives Debate: The Welsh Government's Performance

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.

Motion NDM5194 William Graham

The National Assembly for Wales:

Notes the abject and persistent failure of the Welsh Government to deliver improvements to the lives of the people of Wales, notably its:

- a) incompetence in developing the Welsh economy;
- b) failure to close key educational attainment gaps;
- c) poor performance in hitting NHS waiting and response time targets; and
- d) ineffectiveness in tackling the root causes of poverty.

13:30 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

Thank you, Deputy Presiding Officer. It is a pleasure to stand here this afternoon and move the Welsh Conservative motion that is on the order paper. Before I make my opening remarks, I draw everyone's attention to the empty desks that are before us. I do think that it is a crying shame that, in a national legislature, other parties have chosen not to turn up today, in particular the Government, which has not bothered to turn up to respond to this debate. This is their place of work today, the Assembly is in session and in any other place where workers did not turn up for work, they would face disciplinary action. I hope that the public will draw their own conclusions from the empty desks that are before us.

We have tabled this debate today because we think that it is an opportune time, during the last Plenary before the Easter recess, to focus on what the First Minister said that he hoped his Government would be about in the fourth term, which was delivery, and delivery in all sectors for which it has responsibility, whether in economy, education or health, and right across Government. I think that anyone looking at the performance of the Government in its first two years of operation could genuinely say that there has been abject failure by all Ministers to deliver on their portfolios.

However, I will focus on the three main portfolios and my colleagues, who will speak after me, will, no doubt, touch on other areas. For example, take the economy, which is at the forefront of all of our minds given the challenging environment that we find ourselves in because of the negligent way in which the Labour Party ran the economy in the first decade of the twenty-first century, where Wales has, sadly, not performed to its full potential. We fully understand that Wales has great opportunities, including the skills that people have, but through the lack of leadership and the lack of direction, we regrettably have far higher levels of unemployment here in Wales. In the last month that unemployment figures were recorded, there was an increase of 6,000 in the number of those unemployed in Wales as opposed to a 14,000 decrease in other parts of the United Kingdom. When you look at exports, which were down by 10% last year, and the fact that the First Minister has set himself up as an ambassador to sell Wales abroad, surely that is a damning indictment of the First Minister's inability to sell Wales abroad.

A 10% decline in exports is catastrophic and reinforces what the Minister herself has identified about the inability of the Welsh Government to get the brand of Wales correct. If you look at the new portfolio that has been created for the economy and the Minister who holds that portfolio, she has decried the capitalist system and extolled the virtues of Marxism. You could not make that up other than in the Soviet era or under an eastern European dictatorship. Looking at the desks opposite, I do sometimes think that the Labour Party thinks that it is in a single-party dictatorship, to be honest with you.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser sefyll yma y prynhawn yma a chynnig cynnig y Ceidwadwyr Cymreig sydd ar y papur trefn. Cyn imi wneud fy sylwadau agoriadol, hoffwn dynnu sylw pawb at y desgiau gwag o'n blaen. Yn fy marn i, mae'n drueni mawr, mewn deddfwrfa genedlaethol, fod pleidiau eraill wedi dewis peidio â bod yn bresennol yma heddiw, yn enwedig y Llywodraeth, nad yw wedi trafferthu i ddod i ymateb i'r ddadl hon. Dyma eu gweithle heddiw, mae'r Cynulliad yn eistedd ac mewn unrhyw le arall lle nad yw gweithwyr yn dod i'r gwaith, byddent yn wynebu camau disgyblu. Gobeithiaf y bydd y cyhoedd yn dod i'w casgliadau eu hunain o weld y desgiau gwag o'n blaen.

Rydym wedi cyflwyno'r ddadl hon heddiw oherwydd credwn ei bod yn amser da, yn ystod y Cyfarfod Llawn olaf cyn toriad y Pasg, inni ganolbwyntio ar yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog y byddai'n gobeithio y byddai ei Lywodraeth yn anelu ato yn y pedwerydd tymor, sef cyflawni, a chyflawni ym mhob sector y mae'n gyfrifol amdano, boed hynny ym maes yr economi, addysg neu iechyd, ac ym mhob rhan o'r Llywodraeth. Credaf y gallai unrhyw un sy'n edrych ar berfformiad y Llywodraeth yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o weithredu ddweud yn ddiffuant inni weld methiant llwyr gan bob Gweinidog i gyflawni nodau eu portffolios.

Fodd bynnag, canolbwyntiaf ar y tri phrif bortffolio a bydd fy nghyd-Aelodau, a fydd yn siarad ar fy ôl i, yn ddiau, yn sôn am feysydd eraill. Er enghraifft, yr economi, sydd ar flaen meddyliau pob un ohonom o ystyried yr amgylchedd heriol presennol oherwydd y ffordd esgeulus y mae'r Blaid Lafur wedi rhedeg yr economi yn ystod degawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain, lle nad yw Cymru, yn anfodus, wedi perfformio i'w llawn potensial. Deallwn yn llwyr fod gan Gymru gyfleoedd gwych, gan gynnwys y sgiliau sydd gan bobl, ond oherwydd diffyg arweiniad a diffyg cyfeiriad, mae lefelau llawer uwch o ddiweithdra yma yng Nghymru, gwaetha'r modd. Yn y mis diwethaf y cofnodwyd ffigurau diweithdra, bu cynnydd o 6,000 yn nifer y di-waith yng Nghymru o gymharu â gostyngiad o 14,000 mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Os edrychwch ar allforion, lle y gwelwyd gostyngiad o 10% ers y llynedd, a'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi sefydlu ei hun fel llysgennad i hyrwyddo Cymru dramor, onid yw'n gondemniad damniol o anallu'r Prif Weinidog i hyrwyddo Cymru dramor.

Mae gostyngiad o 10% mewn allforion yn drychinebus ac yn atgyfnerthu'r hyn y mae'r Gweinidog ei hun wedi'i nodi ynghylch anallu Llywodraeth Cymru i gael brand Cymru yn gywir. Os edrychwch ar y portffolio newydd sydd wedi ei greu ar gyfer yr economi a'r Gweinidog sy'n dal y portffolio hwnnw, mae wedi lladd ar y system gyfalafol ac wedi canmol rhinweddau Marcisiaeth. Ni allech ddychmygu'r fath beth heblaw yn y cyfnod Sofietaidd neu o dan unbennaeth yn un o wledydd dwyrain Ewrop. O edrych ar y desgiau gyferbyn, credaf weithiau fod y Blaid Lafur o'r farn mai unbennaeth un blaid ydyw, a dweud y gwir.

Looking at education, which should be the bedrock and the foundation for where many of our young people start off in life, successive Labour Ministers of education have failed to achieve any impact since devolution was created in 1999, other than to drive standards down in Wales. That hurts me as a father; my youngest daughter is just leaving primary school at the moment and my second son is doing his A-levels at Cowbridge Comprehensive School. I passionately want our children to have the best environment possible and, above all, to be able to come out of our schools with the highest achievements possible. That is no fault of the teaching profession or the parents over successive years because all have worked tirelessly within our education system. It is the ideology that the Labour Party has driven into the education system in Wales that has failed so miserably, whether in the early years of Jane Davidson as Minister or in the time of Jane Hutt, the Minister before this one, and now we have Leighton Andrews. Other than coming here and making a constant stream of statements, he does not seem to have a clue how to sustain funding levels into higher education or to improve the attainment levels of our secondary schools and, in particular, how to bridge the attainment divide between primary and secondary education. It really is disheartening, in a Minister who has had over 1,000 days in position, that he has such little ability other than to talk in the Chamber or shout to the press to achieve any real impact on the ground, so that our children can come out of education with the qualifications that will qualify them for the twenty-first century.

We then move into health, which is the other area that many people across Wales—north, south, mid and west—depend on in their everyday lives, whether it be a visit to the accident and emergency department or a critical intervention because of a diagnosis of cancer, for example, or cardiology. All these targets have been missed regularly and they are the Government's own targets. What is the point in this Government setting itself a target if it cannot meet that target, whether it is the cancer target times, which have not been met once since the First Minister took office in 2009, or the review of the ambulance service that is constantly ongoing? I forget what number review that we are up to at the moment, since the Assembly was set up. I think that it is the ninth review, as Members are indicating across the Chamber. There have been nine reviews of a service in 12 years of devolution. Where is the leadership? Where is the delivery?

When you then look at the reorganisation that has gone on, or is going on, in the health service, you see the complete chaos that is ensuing because patients, clinicians and local people's views are not being taken into consideration. I commend all Members from all parties—even parties that have not attended today—who have worked tirelessly to represent their constituents' views, yet the Government has turned a deaf ear to many of those observations.

O edrych ar addysg, a ddylai fod yn gonglfaen i ddechrau llawer o'n pobl ifanc mewn bywyd, mae gweinidogion addysg Llafur olynol wedi methu â chael unrhyw effaith ers sefydlu datganoli yn 1999, ar wahân i beri i safonau ddisgyn yng Nghymru. Mae hynny'n rhoi loes imi fel tad; mae fy merch ifancaf ar fin gadael yr ysgol gynradd ac mae fy ail fab yn astudio ar gyfer Safon Uwch yn Ysgol Gyfun y Bontfaen. Rwy'n awyddus iawn i'n plant gael yr amgylchedd gorau posibl ac, yn anad dim, yn gadael ein hysgolion gyda'r cyflawniadau uchaf posibl. Nid bai'r proffesiwn addysgu na'r rhieni dros y blynyddoedd olynol ydyw oherwydd maent i gyd wedi gweithio'n ddiflino o fewn ein cyfundrefn addysg. Yr ideoleg y mae'r Blaid Lafur wedi ei chyflwyno i'r gyfundrefn addysg yng Nghymru sydd wedi methu mor druenus, boed hynny yn y blynyddoedd cynnar pan oedd Jane Davidson yn Weinidog neu yn ystod cyfnod Jane Hutt, y Gweinidog cyn yr un presennol, ac erbyn hyn mae gennym Leighton Andrews. Ar wahân i ddod yma a gwneud llw o ddatganiadau, ymddengys nad oes ganddo glem sut i gynnal lefelau cyllid mewn addysg uwch na gwella lefelau cyrhaeddiad ein hysgolion uwchradd ac, yn benodol, sut i bontio'r bwlch cyrhaeddiad rhwng addysg gynradd ac uwchradd. Mae'n wir yn ddigalon, i Weinidog sydd wedi bod yn ei swydd dros 1,000 o ddyddiau, mai ei unig allu bron yw siarad yn y Siambr neu weiddi ar y wasg i gyflawni unrhyw effaith gwirioneddol ar lawr gwlad, fel y gall ein plant adael addysg gyda'r cymwysterau a fydd yn gymwys iddynt yn yr unfed ganrif ar hugain.

Yna trown at iechyd, sef y maes arall y mae llawer o bobl ledled Cymru—gogledd, de, canolbarth a gorllewin—yn dibynnu arno yn eu bywydau bob dydd, boed hynny'n ymweliad â'r adran damweiniau ac achosion brys neu ymyrraeth gritigol oherwydd diagnosis o ganser, er enghraifft, neu gardioleg. Methwyd â chyrraedd pob un o'r targedau hyn yn rheolaidd, a thargedau'r Llywodraeth ei hun ydynt. Pa ddiben sydd i'r Llywodraeth hon osod targed iddi'i hun os na all gyrraedd y targed gwnnwn, pa un a ydych yn sôn am yr amseroedd targed i ganser, nas cyrhaeddwyd unwaith ers i'r Prif Weinidog ddod i rym yn 2009, neu adolygiad o'r gwasanaeth ambiwlans sy'n parhau o hyd? Anghofiaf faint o adolygiadau sydd wedi bod hyd yn hyn, ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu. Credaf mai dyma'r nawfed adolygiad, yn ôl Aelodau yn y Siambr. Cafwyd naw adolygiad o wasanaeth mewn 12 mlynedd o ddatganoli. Ble mae'r arweinyddiaeth? Ble mae'r cyflawni?

Os edrychwch wedyn ar yr ad-drefnu sydd wedi digwydd, neu sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y gwasanaeth iechyd, fe welwch y cawllach llwyr am nad yw cleifion, dinigwyr na barn pobl leol yn cael eu hystyried. Cymeradwyaf bob Aelod o bob plaid—hyd yn oed y pleidiau nad ydynt yn bresennol heddiw—sydd wedi gweithio'n ddiflino i gynrychioli safbwyntiau eu hetholwyr, ac eto y mae'r Llywodraeth wedi anwybyddu llawer o'r sylwadau hynny.

There is no wonder that the Government, and the First Minister in particular, chose to rearrange the deck chairs on the Titanic last week and move Members around. All that he achieved was keeping the same old gang together. That is not good enough for the people of Wales. Today's performance by the Government and the governing party is not good enough for the people of Wales. I desperately hope that the First Minister will hang his head in shame and start to deliver for the people of Wales, and set that as his mantra. So far, he has failed to deliver on one atom of improvement in the public's life in Wales.

I urge support for the motion before the house this afternoon. [Applause.]

Nid oes syndod i'r Llywodraeth, a'r Prif Weinidog yn arbennig, dde wis ad-drefnu'r cadeiriau dec ar y Titanic yr wythnos diwethaf a symud Aelodau o gwmpas. Y cyfan y mae wedi ei gyflawni yw cadw'r un hen griw gyda'i gilydd. Nid yw hynny'n ddigon da i bobl Cymru. Nid yw perfformiad heddiw gan y Llywodraeth a'r blaid sydd mewn grym yn ddigon da i bobl Cymru. Taer obeithiaf y bydd y Prif Weinidog yn cywilyddio ac yn dechrau cyflawni dros bobl Cymru, ac yn gwneud hynny'n fantra iddo. Hyd yn hyn, nid yw wedi cyflawni yr un gronyn o welliant ym mywyd y cyhoedd yng Nghymru.

Rwy'n annog Aelodau i gefnogi'r cynnig gerbron y tŷ y prynhawn yma. [Cymeradwyaeth.]

13:37

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I do not encourage applause. I do not think that it is strictly against the Standing Orders, but I think that a certain restraint is decorous. Order.

Nid wyf yn annog cymeradwyaeth. Ni chredaf ei bod yn groes i'r Rheolau Sefydlog yn benodol, ond credaf y dyliid ymgadw rhag hynny. Trefn.

I have selected the amendment to the motion and I call on Kirsty Williams to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Dileu popeth ar ôl 'pobl Cymru,' a rhoi yn ei le 'ac yn galw arni i wneud iawn am ei:

Delete all after 'people of Wales,' and replace with 'and calls on it to redress its:

a) anallu i ddatblygu economi Cymru drwy ddatblygu ystod lawn o wasanaethau er mwyn i fusnesau allu cael gafael ar gredyd, cyngor busnes a chymorth marchnata, a ddarperir o un pwynt cyswllt;

a) incompetence in developing the Welsh economy by developing a full range of services for businesses to access credit, business advice and marketing support, delivered at a single point-of-call;

b) methiant i gau bylchau cyrhaeddiad allweddol mewn addysg drwy gynyddu gwerth y premiwm disgybl a sicrhau ei fod yn cael ei wario'n effeithiol ar leihau'r bwlch rhwng tlodi a chyrhaeddiad;

b) failure to close key educational attainment gaps by increasing the value of the pupil premium and ensuring it is spent effectively on reducing the gap between poverty and attainment;

c) perfformiad gwael o ran cyrraedd targedau amseroedd aros ac ymateb y GIG drwy sicrhau gwariant effeithiol ar wasanaethau rheng flaen y GIG; a

c) poor performance in hitting NHS waiting and response time targets by ensuring effective spending in frontline NHS services; and

d) aneffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd tlodi drwy roi sylw i effaith yr ystod lawn o wasanaethau cyhoeddus gwael ar wreiddio tlodi ac anghydraddoldeb ac adrodd yn rheolaidd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ei chynnydd.'

d) ineffectiveness in tackling the root causes of poverty by addressing the impact of the whole range of poor public services on entrenching poverty and inequality and regularly reporting to the National Assembly on its progress.'

13:37

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 1 in the name of Aled Roberts.

Cynigaf welliant 1 yn enw Aled Roberts.

It is a slightly surreal situation that we find ourselves in this afternoon. The Welsh Liberal Democrats believe that if there is business to be taken in this Chamber, it is right for us to be here this afternoon. [Assembly Members: 'Hear, hear'.]

Mae'r sefyllfa a wynebwn y prynhawn yma ychydig yn swreal. Cred Democratiaid Rhyddfrydol Cymru os oes busnes i'w gynnal yn y Siambr hon, mae'n briodol ein bod yma y prynhawn yma. [Aelodau'r Cynulliad: 'Clywch, clywch']

We tabled the amendment not to disagree with the fundamentals of the motion put forward by the Conservative group, but to suggest some solutions to the problems that they have identified.

The failures in key aspects of Government policy—whether that be the economy, education, schools or tackling poverty—are well rehearsed in this Chamber, but we feel that the motion is lacking positive examples from the Conservative group as to how it believes that the Welsh Government should change course.

Part (a) of the amendment looks at what more the Welsh Government could do to support our economy. It is interesting to note that figures released just today on employment statistics show that Wales continues to have a high level of unemployment compared to the rest of the UK. There was a rise of 0.5% today, taking the Welsh unemployment rate to 8.4%, when the average across the UK is only 7.8%. While the UK, as a whole, has moved from tenth place to eighth place in the world rankings of global competitiveness for 2012 to 2013, the latest regional comparisons show that Wales is now the least competitive economy, having fallen behind that of the north-east of England. Far too often we find ourselves at the bottom of all the wrong types of league tables. One of the reasons for this, we believe, is the failure of the Welsh Government to develop a full range of services for businesses to access credit, business advice and marketing support. If those were delivered at a single point of call, that would do so very much to support the micro and small businesses that dominate the Welsh economy and need to be supported if the Welsh economy is to do better.

It is interesting to note that the FSB in Wales said that only 34% of businesses in Wales had ever heard of Finance Wales, which has been in operation for over 10 years and is one of the Government's key ways of supporting investment and equity investment in businesses, and only 4% of Welsh businesses have ever actually secured financial support from that organisation. Instead, many small businesses in Wales have to rely on bank overdrafts and credit cards as a primary source of funding to cover cash-flow problems for the day-to-day activities of their businesses. That puts them in a very difficult situation. Businesses often do not know where to turn for advice, and there is inconsistent support across Wales and a lack of co-ordination between sources. Where the Government does spend money, it is often on the duplication of services. It does not support business advice in a way that businesses feel is applicable to them and, in many cases, my constituents tell me, it is not delivered by people whom they feel are well qualified and have appropriate business experience to be able to offer advice.

Rydym wedi cyflwyno'r gwelliant nid er mwyn anghytuno â hanfodion y cynnig a gyflwynwyd gan y grŵp Ceidwadol, ond er mwyn awgrymu rhai atebion i'r problemau a nodwyd ganddynt.

Trafodir y methiannau mewn agweddau allweddol ar bolisi'r Llywodraeth—boed hynny yn yr economi, addysg, ysgolion neu fynd i'r afael â thlodi—yn helaeth yn y Siambr hon, ond teimlwn fod y cynnig yn brin o enghreifftiau cadarnhaol gan y grŵp Ceidwadol ynghylch sut y cred y dylai Llywodraeth Cymru newid cwrs.

Mae rhan (a) o'r gwelliant yn ystyried beth yn rhagor y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi ein heconomi. Mae'n ddiddorol nodi bod ffigurau a ryddhawyd heddiw ynglŷn ag ystadegau cyflogaeth yn dangos bod Cymru yn parhau â lefel uchel o ddiweithdra o'i chymharu â gweddill y DU. Gwelwyd cynnydd o 0.5% heddiw, sy'n golygu bod cyfradd ddiweithdra o 8.4% yng Nghymru, er mai dim ond 7.8% yw'r cyfartaledd ledled y DU. Er bod y DU, yn gyffredinol, wedi symud o'r degfed safle i'r wythfed safle o ran cystadleurwydd byd-eang ar gyfer 2012 i 2013, mae'r cymariaethau rhanbarthol diweddaraf yn dangos mai economi Cymru bellach yw'r un leiaf cystadleuol, a'i bod ar ei hôl hi o gymharu â gogledd-ddwyrain Lloegr. Yn llawer rhy aml rydym ar waelod y mathau anghywir o dablau cynghrair. Un o'r rhesymau dros hyn, fe gredwn, yw methiant Llywodraeth Cymru i ddatblygu ystod lawn o wasanaethau ar gyfer busnesau i gael gafael ar gredyd, cyngor i fusnesau a chymorth marchnata. Pe bai'r rhain yn cael eu cyflwyno mewn un man, byddai hynny'n gwneud cryn dipyn i gefnogi microfusnesau micro a busnesau bach sy'n rhan mor amlwg o economi Cymru ac y mae angen eu cefnogi er mwyn i economi Cymru wneud yn well.

Mae'n ddiddorol nodi i'r Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru ddweud mai dim ond 34% o fusnesau yng Nghymru oedd wedi clywed erioed am Cyllid Cymru, sydd wedi bod yn gweithredu ers dros 10 mlynedd ac yn un o ffyrdd allweddol y Llywodraeth o gefnogi buddsoddiad a buddsoddiad ecwiti mewn busnesau, ac mai dim ond 4% o fusnesau Cymru oedd erioed wedi sicrhau cymorth ariannol gwirioneddol gan y sefydliad hwnnw. Yn lle hynny, rhaid i lawer o fusnesau bach yng Nghymru ddibynnu ar orddrafftiau banc a chardiau credyd fel prif ffynhonnell o arian i ymdrin â phroblemau llif arian ar gyfer gweithgareddau o ddydd i ddydd eu busnesau. Mae hynny'n eu rhoi mewn sefyllfa anodd iawn. Nid yw busnesau yn aml yn gwybod ble i droi am gyngor, a cheir cymorth anghyson ledled Cymru a diffyg cydgyssylltu rhwng ffynonellau. Pan fydd y Llywodraeth yn gwario arian, yn aml mae'n gwario ar ddyblygu gwasanaethau. Nid yw'n cefnogi cyngor i fusnesau mewn ffordd y mae busnesau yn teimlo ei bod yn berthnasol iddynt ac, mewn sawl achos, yn ôl fy etholwyr, nid yw'n cael ei ddarparu gan bobl y maent yn teimlo eu bod yn meddu ar y cymwysterau a'r profiad busnes priodol i allu cynnig cyngor.

Instead, we need to promote the range of funding sources available to business. Two weeks ago, in a short debate, my colleague William Powell spoke at length about a role for credit unions in the business sphere, as well as funding circles and other community initiatives that work well in other European countries and in the US. I would like to draw the Chamber's attention to the fact that, since January 2011, the UK coalition Government has been operating a one-in, one-out rule for business red tape and regulation. For every £1 of additional cost imposed on business by new regulation, a legislation equivalent saving must be found, and this has resulted in real benefits to business. The changes made by the UK Government have reduced the annual cost to business at a rate of around £919 million at a time—

Yn hytrach na hynny, mae angen inni hyrwyddo yr ystod o ffynonellau cyllid sydd ar gael i fusnesau. Bythefnos yn ôl, mewn dadl fer, siaradodd fy nghyd-Aelod William Powell yn helaeth am rôl i undebau credyd ym maes busnes, yn ogystal â chylchoedd cyllido a mentrau cymunedol eraill sy'n gweithio'n dda mewn gwledydd eraill yn Ewrop ac yn yr UD. Hoffwn dynnu sylw'r Siambr at y ffaith, ers mis Ionawr 2011, fod Llywodraeth glymblaid y DU wedi bod yn gweithredu rheol un mewn ac un allan ar gyfer biwrocratiaeth a rheoleiddio busnes. Am bob £1 o gost ychwanegol a osodir ar fusnesau drwy reoliad newydd, rhaid dod o hyd i arbedion cyfatebol mewn deddfwriaeth arall, ac mae hyn wedi arwain at fanteision gwirioneddol i fusnesau. Mae'r newidiadau a wnaed gan Lywodraeth y DU wedi lleihau'r gost flynyddol i fusnesau ar gyfradd o tua £919 miliwn ar adeg—

13:41 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way. Would you agree with my sentiments, expressed to the First Minister yesterday, that it is a shame that, when doing his Cabinet reshuffle, he did not opt for a one-in, one-out rule, rather than constantly adding Ministers, so that—well, they are not in the Chamber today, but, for as far as the eye can see, there is Minister after Minister now, apart from today, bizarrely?

Diolch am ildio. A fydddech yn cytuno â'm sylwadau, i'r Prif Weinidog ddoe, ei bod yn drueni, wrth iddo ad-drefnu ei Gabinet, nad oedd wedi dewis rheol un i mewn, un allan, yn hytrach nag ychwanegu o hyd at y Gweinidogion, fel bod—wel, nid ydynt yn y Siambr heddiw, ond hyd y gellir gweld, Gweinidog ar ôl Gweinidog erbyn hyn, ar wahân i heddiw, sy'n rhyfedd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:42 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that 'reshuffle' is probably overstating what happened to the Welsh Government last week, and Wales will be the poorer for it.

Credaf fod 'ad-drefnu' yn ormodiaith o bosibl i ddisgrifio'r hyn a ddigwyddodd i Lywodraeth Cymru yr wythnos diwethaf, a bydd Cymru ar ei cholled o'r herwydd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

To bring my comments to a conclusion, the Chamber will be well aware of the determination of the Welsh Liberal Democrats to break the link between poverty and educational attainment. It is a matter of great regret to us that, although we were able to persuade the Welsh Government of the value of the pupil premium, its failure to increase the pupil premium in next year's budget will only mean that the funding gap between English and Welsh schools will continue to grow. That stores up long-term problems for our economy.

Er mwyn dirwyn fy sylwadau i ben, bydd y Siambr yn ymwybodol iawn o benderfyniad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Gresynwn yn fawr, er inni lwyddo i ddarbwyllio Llywodraeth Cymru am werth y premiwm disgyblion, y bydd ei methiant i gynyddu'r premiwm disgyblion yng nghyllideb y flwyddyn nesaf ond yn golygu bod y bwch ariannu rhwng ysgolion yng Nghymru a Lloegr yn parhau i'n dyfu. Mae hynny'n arwain at broblemau hirdymor i'n heconomi.

13:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish now.

Gorffennwch yn awr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:43 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Also, their performance over the NHS has been woeful. They have not met their cancer waiting time targets since 2008—

Hefyd, mae eu perfformiad ynglŷn â'r GIG wedi bod yn druenus. Nid ydynt wedi cyflawni eu targedau amseroedd aros ar gyfer canser ers 2008—

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You must finish.

Rhaid ichi orffen.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:43 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

They have never met their A&E targets—

Nid ydynt erioed wedi cyflawni eu targedau ar gyfer adrannau damweiniau ac achosion brys—

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Mohammad Asghar.

Galwaf ar Mohammad Asghar.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity this afternoon to contribute to this debate on the failure of the Welsh Government. It is the issue of the economy that concerns the people of Wales most, and it is a disgrace that Labour and Plaid Cymru Assembly Members have chosen today to listen to the trade unions rather than to attend this debate. I will concentrate my remarks on the crisis facing our high streets, particularly in the city of Newport.

Almost one quarter of the shops in Newport currently lie empty. In one street alone, Lower Dock Street, 42% of the shops are shut. The Welsh Government has announced a 12-month project to look at why businesses in Wales are struggling. It is too little, too late. Years of Labour failure to create the conditions for businesses to grow in Wales have brought about the current sorry state of Newport and other towns and cities in Wales. Newport desperately needs better transport links, especially rail links, with Valleys communities, as these would enable people in unemployment to travel to Newport to seek jobs.

Small businesses must be made exempt from business rates. The Welsh Conservatives are committed to abolishing business rates for small businesses with the rateable value of up to £12,000, and to providing tapered relief to those with a rateable value of up to £15,000. This would boost enterprise and create much-needed jobs. Our centres must contain a mixture of housing and shops, to ensure that there are people around in the evening to stop the high street becoming a no-go area and to deter crime and vandalism. We must curb the development of out-of-town shopping centres to protect and preserve our high street traders. Action needs to be taken now if our towns and city centres are to survive. It is shameful that the only action Labour supports is industrial action. You see the sorry state of this place, Presiding Officer—these Assembly Members are being paid by the Government to do their job, but they are listening to the trade union.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf y cyfle yr prynhawn yma i gyfrannu at y ddatl hon ar fethiant Llywodraeth Cymru. Yr economi yw'r mater pwysicaf i bobl Cymru, ac mae'n warthus bod Aelodau Cynulliad Llafur a Phlaid Cymru wedi dewis gwrandau ar yr undebau llafur yn hytrach na dod i'r ddatl hon heddiw. Yn fy sylwadau hoffwn ganolbwyntio ar yr argyfwng sy'n wynebu'r stryd fawr, yn enwedig yn ninas Casnewydd.

Mae bron chwarter y siopau yng Nghasnewydd yn wag ar hyn o bryd. Mewn un stryd yn unig, Lower Dock Street, mae 42% o'r siopau wedi cau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi prosiect 12 mis i ystyried pam mae busnesau yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd. Mae'n rhy ychydig ac yn rhy hwyr. Blynyddoedd o fethiant Llafur i greu'r amodau i helpu busnesau i dyfu yng Nghymru sydd wedi arwain at y sefyllfa druenus ar hyn o bryd yng Nghasnewydd a threfi a dinasoedd eraill yng Nghymru. Mae angen dirfawr am gysylltiadau trafnidiaeth gwell yng Nghasnewydd, yn enwedig cysylltiadau rheilffordd, â chymunedau'r Cymoedd, gan y byddai'r rhain yn galluogi pobl sy'n ddi-waith i deithio i Gasnewydd i chwilio am swyddi.

Rhaid i fusnesau bach gael eu heithrio rhag ardrethi busnes. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi ymrwmo i ddileu ardrethi busnes i fusnesau bach sydd â gwerth ardrethol o hyd at £12,000, a rhoi rhyddhad sy'n graddol leihau i'r rhai sydd â gwerth ardrethol o hyd at £15,000. Byddai hyn yn hybu menter a chreu swyddi sydd eu hangen yn ddirfawr. Rhaid i'n canolfannau gynnwys cymysgedd o dai a siopau, er mwyn sicrhau bod pobl ar hyd y lle gyda'r nos i atal y stryd fawr rhag mynd yn ardal waharddedig a rhoi terfyn ar droseddau a fandaliaeth. Rhaid inni atal datblygiad canolfannau siopa ar gyrion y dref er mwyn amddiffyn a gwarchod ein masnachwyr ar y stryd fawr. Mae angen gweithredu yn awr er mwyn i ganol ein trefi a'n dinasoedd croesi. Mae'n gywilyddus mai'r unig weithredu y mae Llafur yn ei gefnogi yw gweithredu diwydiannol. Edrychwch ar gyflwr truenus y lle hwn, Lywydd—mae'r Aelodau Cynulliad hyn yn cael eu talu gan y Llywodraeth i wneud eu gwaith, ond maent yn gwrandau ar yr undeb llafur.

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like Kirsty Williams, I find these circumstances surreal today. However, I am pleased to contribute to today's motion, noting the abject and persistent failure of the Welsh Government to deliver improvements to the lives of the people of Wales. Poor performance is hitting NHS waiting and response time targets, and there is ineffectiveness in tackling the root cause of poverty. This lazy Labour attitude can be seen in the Chamber today, refusing to cross the picket line of a strike that has very little meaning. Indeed, I asked a Labour Member only last week what the strike was about, and the response was that that Member did not know what the strike was about but would not be crossing the picket line.

Fel Kirsty Williams, teimlaf fod yr amgylchiadau hyn yn swreal heddiw. Fodd bynnag, rwy'n falch o gael cyfrannu at y cynnig heddiw, sy'n nodi methiant llwyr a chyson Llywodraeth Cymru i gyflwyno gwelliannau i fywydau pobl Cymru. Mae perfformiad gwael yn effeithio ar dargedau amseroedd aros ac ymateb y GIG, a cheir aneffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â gwraidd tloidi. Mae'r agwedd ddiog hon gan Lafur i'w gweld yn y Siambr heddiw, gan wrthod croesi llinell biced streic nad oes iddi fawr ddim ystyr. Yn wir, gofynnais i Aelod Llafur yr wythnos diwethaf beth oedd diben y streic, a'r ateb oedd nad oedd yr Aelod yn gwybod beth oedd diben y streic ond na fyddai'n croesi'r llinell biced.

13:46 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Member for taking an intervention. Did he see any picket lines when he came in this morning? At the front of the Senedd there was no picket line. Why could not the Labour or Plaid Members make it in?

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad. A welodd unrhyw linellau piced pan gyrhaeddodd y bore yma? Nid oedd unrhyw linell biced o flaen y Senedd. Pam na allai'r Aelodau Llafur neu Blaid Cymru fod wedi bod yn bresennol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed. It is a point well made. As I say, the Labour Member I spoke to did not know what the strike was about, and that just about sums up the lazy attitude of the Members who are absent today.

Yn wir. Mae'n bwynt da. Fel y dywedais, nid oedd yr Aelod Llafur a holais yn gwybod beth oedd diben y streic, ac mae hynny'n cyfleu i'r dim agwedd ddiog yr Aelodau sy'n absennol heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I want to talk briefly about the abject poverty faced across much of Wales and the fact that this Government is perpetuating poverty for personal gain. What do I mean by this? Successive Labour-led Governments have perpetuated poverty; one only has to look at the concentration of red on the political map to see that, lo and behold, it coincides with the areas of poverty in Wales. The degree to which people are dependent on the state is reflected in the size of Labour's majorities—there is an irrefutable correlation. The simple truth is that you cannot make the poor richer by making the rich poorer. This will never be accepted by socialists across Wales. It is no great surprise to me, and hopefully one day people across the south Wales Valleys will realise just how ineffective their local Labour Party has been in creating and furthering ambition. For instance, look at this Labour Government's record on poverty. It has missed successive poverty targets in Wales. Labour in London and Cardiff missed its target of halving the number of children in poverty by 2010. This Government has presided, and continues to preside, over a housing shortage. The target of providing 12,500 homes during this term of Welsh Government includes 7,500 affordable homes, but there were only 4,970 homes of all tenures built in Wales in 2011-12, with similar numbers likely to be built this year.

Hoffwn sôn yn fyr am y tlodi truenus a wynebir yn y rhan fwyaf o Gymru a'r ffaith bod y Llywodraeth hon yn gadael i dlodi barhau er budd personol. Beth a olygaf wrth hyn? Mae Llywodraethau olynol o dan arweiniad Llafur wedi gadael i dlodi barhau; dim ond edrych ar y manau coch ar y map gwleidyddol sydd angen ichi ei wneud er mwyn gweld hynny, ac fe welch eu bod yn cyd-daro ag ardaloedd o dlodi yng Nghymru. Adlewyrchir y graddau y mae pobl yn dibynnu ar y wladwriaeth ym maint mwyafrifoedd Llafur—ceir cydberthynas ddiymwad. Y gwir amdani yw na allwch wneud y tlawd yn gyfoethocach drwy wneud y cyfoethog yn dlotach. Ni fydd hyn byth yn cael ei dderbyn gan sosialwyr ledled Cymru. Nid yw'n syndod mawr imi, a gobeithio un diwrnod y bydd pobl Cymoedd y de yn sylweddoli pa mor aneffeithiol fu eu Plaid Lafur leol o ran creu a hybu uchelgais. Er enghraifft, edrychwch ar record y Llywodraeth Lafur hon o ran tlodi. Mae wedi methu â chyrraedd un targed tlodi ar ôl y llall yng Nghymru. Methodd Llafur yn Llundain ac yng Nghhaerdydd â chyflawni eu targed i haneru nifer y plant mewn tlodi erbyn 2010. O dan y Llywodraeth hon rydym wedi gweld, ac yn parhau i weld, prinder tai. Mae'r targed o ddarparu 12,500 o gartrefi yn ystod tymor y Llywodraeth hon yn cynnwys 7,500 o gartrefi fforddiadwy, ond dim ond 4,970 o gartrefi o bob daliadaeth a adeiladwyd yng Nghymru yn 2011-12, gyda niferoedd tebyg yn debygol o gael eu hadeiladu eleni.

Worklessness is one of the causes of poverty. Even in an economic boom, the previous UK Labour Government failed to deliver for the long-term unemployed. Workless households increased by 200,000 after a decade of devolved, Labour-led Governments, and prior to the change of UK Government, one in three working-age people in Wales were not in work: double the UK average.

Diweithdra yw un o'r pethau sy'n achosi tlodi. Hyd yn oed mewn ffyniant economaidd, methodd Llywodraeth Lafur flaenorol y DU â darparu ar gyfer pobl ddi-waith hirdymor. Cynyddodd aelwydydd di-waith 200,000 ar ôl degawd o Lywodraethau wedi'u datganoli o dan arweiniad Llafur, a chyn i Lywodraeth y DU newid, nid oedd un o bob tri o oedran gweithio yng Nghymru mewn gwaith: dwbl cyfartaledd y DU.

This Government now has a new Minister for tackling poverty, but it is all words and very little action. The emphasis needs to be placed on business support and development through housing and regeneration, but again, these portfolios remain separate, and the less said about the regeneration investment fund for Wales and Labour's handling of it, the better.

Mae'r Llywodraeth hon bellach wedi penodi Gweinidog newydd i fynd i'r afael â thlodi, ond geiriau gwag yw'r cyfan heb fawr ddim gweithredu. Rhaid i'r pwyslais gael ei roi ar gymorth i fusnesau a datblygu drwy dai ac adfywio, ond unwaith eto, erys y portffolios hyn ar wahân, a pheidiwch â sôn am Gronfa Buddsoddi Cymru mewn adfywio a'r ffordd y mae Llafur yn ymdrin â honno.

In closing, this Government, which is physically absent from the Chamber, is as effective today as it is every other day. It neither has the will nor the ability to lead Wales, and the people of Wales should take note. While Labour is on strike, the Welsh Conservatives are here working for Wales. This tired Labour Government is restraining our country's natural ambition, drive and determination to succeed, which was ably displayed against England on the rugby field on Saturday.

On that note, I commend this motion to this Chamber.

13:49

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will keep my comments brief as well, because I think many of the points that I was going to make have already been made today. It really is a bizarre day in the history of devolution. We have had a few bizarre days in the history of devolution over the last decade, but this one certainly takes the biscuit. I was just looking up at the public gallery, and at the members of the public up there, and wondering what they must be thinking today—coming to look at their national legislature in Wales and seeing half the seats empty, when there are people out there struggling to make ends meet at the moment who would do anything to get a job that paid their bills and looked after their families. Those Members who seek to represent them have negated their responsibility today. They have not come here to listen to us make our criticism of them, and they have not come to defend themselves. What on earth is going on? I was wondering whether we could offer members of the public up there some seats down here, because I think that many of them would do a better job than those people who call themselves their representatives and have not bothered to turn up to a democratic institution.

I want to refer briefly to Kirsty Williams's comments earlier, which went to the nub of the argument in talking about the economy. It comes on a day when many of us were listening to the Chancellor's comments earlier, which I am sure will be welcomed, particularly the announcement of the increase in tax allowance to £10,000 for those on the lowest incomes being brought forward to next year; it is a Lib Dem policy—an example of the coalition Government working in action. Normally, at this point you would hear shrieks from the benches there about how awful everything is in London, but thankfully we are not getting any messages from the mothership today. Kirsty also commented that there are also other good things in the budget today, such as the announcement that the beer duty escalator has been abandoned. That is going to be good for rural pubs and good for the economy. Across the board, the UK coalition Government in Westminster is taking the action necessary at that level.

I gloi, mae'r Llywodraeth hon, sy'n absennol yn gorfforol o'r Siambr, yr un mor effeithiol heddiw ag y mae bob diwrnod arall. Nid oes ganddi'r ewyllys na'r gallu i arwain Cymru, a dylai pobl Cymru gymryd sylw. Tra bo Llafur ar streic, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yma yn gweithio dros Gymru. Mae'r Llywodraeth Lafur flinedig hon yn atal uchelgais naturiol, egni a phenderfyniad ein gwlad i lwyddo, a ddangoswyd yn fedrus yn erbyn Lloegr ar y cae rygbi ddydd Sadwrn.

Ar y nodyn hwnnw, cymeradwyaf y cynnig hwn i'r Siambr hon.

Byddaf innau'n cadw fy sylwadau'n gryno hefyd, oherwydd credaf fod llawer o'r pwyntiau yr oeddwn yn bwriadu eu gwneud eisoes wedi'u gwneud heddiw. Mae wir yn ddiwrnod rhyfedd yn hanes datganoli. Rydym wedi cael ychydig o ddiwrnodau rhyfedd yn hanes datganoli dros y degawd diwethaf, ond mae hwn yn sicr yn curo'r cwbl. Roeddwn yn edrych i fyny ar yr oriel gyhoeddus ryw eiliad yn ôl, ac ar aelodau'r cyhoedd sydd yno, ac yn meddwl tybed beth maent yn ei feddwl heddiw—ar ôl dod i edrych ar eu deddfwrfa genedlaethol yng Nghymru a gweld hanner y seddi yn wag, pan fo pobl ledled Cymru yn cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd ar hyn o bryd ac a fyddai'n gwneud unrhyw beth i gael swydd sy'n talu am eu biliau ac sy'n gofalu am eu teuluoedd. Mae'r aelodau hynny sy'n ceisio eu cynrychioli wedi cefnu ar eu cyfrifoldeb heddiw. Nid ydynt wedi dod yma i wrando arnom yn eu beirniadu, ac nid ydynt wedi dod i'w hamddiffyn eu hunain. Beth ar y ddaear sy'n digwydd? Roeddwn yn meddwl tybed a allem gynnig seddi i lawr yma i'r aelodau o'r cyhoedd i fyny yn yr oriel, oherwydd credaf y byddai llawer ohonynt yn gwneud yn well na'r bobl hynny sy'n galw eu hunain yn gynrychiolwyr drostynt ac nad ydynt wedi trafferthu i ddod i sefydliad democrataidd.

Rwyf am gyfeirio'n fyr at sylwadau Kirsty Williams yn gynharach, a aeth at graidd y ddatl o ran yr economi. Daw ar ddiwrnod pan oedd llawer ohonom yn gwrandao ar sylwadau'r Canghellor yn gynharach, a fydd yn cael eu croesawu mae'n siŵr gennyf, yn enwedig y cyhoeddiad y bydd y cynnydd yn y lwfans treth i £10,000 i'r rhai sydd ar yr incwm isaf yn cael ei gyflwyno'r flwyddyn nesaf; un o bolisiau'r Democratiaid Rhyddfrydol ydyw—enghraifft o Lywodraeth glymblaid ar waith. Fel arfer, erbyn hyn byddech yn clywed sgrechian gan y meinciau draw acw am ba mor ofnadwy yw popeth yn Llundain, ond diolch byth, nid ydym yn cael unrhyw negeseuon gan y famlong heddiw. Nododd Kirsty hefyd fod pethau da eraill yn y gyllideb heddiw, megis y cyhoeddiad am roi'r gorau i'r tollau cynyddol ar gwrw. Bydd hynny yn beth da i dafarndai cefn gwlad ac yn dda i'r economi. Yn gyffredinol, mae Llywodraeth glymblaid y DU yn San Steffan yn cymryd y camau angenrheidiol ar y lefel honno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

What the people of Wales need is for their Government here to take similar complementary and helpful action to stimulate the economy. Over 10 years, that has singularly not happened. Today, unemployment figures in Wales are up 7,000 to 8.4%, which is up 0.64% on the previous quarter. If you look at the GVA figures, you will see that they vary over the months, but of all the UK regions and nations, Wales still has the worst-performing GVA. However, time after time, whenever we have these debates in this Chamber and whenever we mention these types of figures, we are jeered at, we are laughed at and we are accused of talking Wales down—it is not the parties that have not turned up; it is the governing party that consistently talks Wales down. However, for democracy's sake, I would rather have them come here to talk Wales down than not bother to turn up at all, because there can be no bigger negation of responsibility.

Wales needs action. I am glad that it is getting it from the UK Lib Dem-Conservative coalition Government. I dearly hope that at some point in time, we are going to get the progress here that we deserve. The Welsh Conservatives have put forward policies recently such as reforming Finance Wales and helping our high streets. These are positive policies that we think would help to change the economy of Wales. It is going to take a long time—you cannot turn around a supertanker overnight—and Wales, as we know, has deep-seated structural problems within its economy. However, you have to start somewhere, and, sadly, because of the Welsh Government's attitude, it is certainly not starting today. I look forward to a time when Wales gets the Welsh Government that it deserves, and that we start seeing parties—hopefully made up of the Members we see here today—putting forward policies that will one day turn Wales around, and give the people of Wales the economy and democracy that they really want.

Yr hyn sydd ei angen ar bobl Cymru yw bod eu Llywodraeth yma yn cymryd camau ategol a defnyddiol tebyg i ysgogi'r economi. Dros 10 mlynedd, nid yw hynny wedi digwydd. Heddiw, mae ffigurau diweithdra yng Nghymru wedi cynyddu 7,000 i 8.4%, sef cynnydd o 0.64% ers y chwarter blaenorol. Os edrychwch ar y ffigurau GYC, fe welwch eu bod yn amrywio dros y misoedd, ond o blith holl ranbarthau a gwledydd y DU, Cymru sydd â'r GYC gwaethaf o hyd. Fodd bynnag, dro ar ôl tro, pryd bynnag y cawn y dadleuon hyn yn y Siambr hon a phryd bynnag y soniwn am ffigurau o'r fath, cawn ein gwawdio, chwarrddir am ein pennau a chawn ein cyhuddo o ladd ar Gymru. Nid y pleidiau sydd yma sy'n lladd ar Gymru—y pleidiau nad ydynt yn bresennol sy'n gwneud hynny; y blaid mewn grym sy'n lladd ar Gymru yn gyson. Fodd bynnag, er mwyn democratiaeth, byddai wedi bod yn well gennyf pe baent wedi dod yma i ladd ar Gymru yn hytrach na pheidio â thrafferthu dod o gwbl, oherwydd cefni ar eu cyfrifoldeb y maent, a hynny yn y ffordd waethaf oll.

Mae angen gweithredu ar Gymru. Rwy'n falch ein bod yn gweld hynny gan Lywodraeth glymblaid y DU rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr. Mawr obeithiaf rywbryd neu'i gilydd, y gwelwn y cynnydd a haeddwn yma. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno polisiau'n ddiweddar, megis diwygio Cyllid Cymru a helpu'r stryd fawr. Mae'r rhain yn bolisiau cadarnhaol a fyddai'n helpu i newid economi Cymru, yn ein barn ni. Bydd yn cymryd amser hir—ni allwch newid cyfeiriad llong dancner enfawr dros nos—ac mae gan economi Cymru, fel y gwyyddom, broblemau strwythurol dwfn iawn. Fodd bynnag, rhaid ichi ddechrau rywle, ac, yn anffodus, oherwydd agwedd Llywodraeth Cymru, yn sicr nid yw'n dechrau heddiw. Edrychaf ymlaen at adeg pan fydd Cymru yn cael Llywodraeth i Gymru y mae'n ei haeddu, a'n bod yn dechrau gweld pleidiau—sy'n cynnwys yr Aelodau a welwn yma heddiw gobeithio—yn cyflwyno polisiau a fydd yn trawsnewid Cymru ryw ddydd, ac yn rhoi i bobl Cymru yr economi a'r ddemocratiaeth y maent yn wir yn eu chwennych.

13:53

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

I thank everyone for their contributions, and what a pleasure it was to hear so much more common sense than we normally do in debates in the Chamber.

The leader of the opposition opened the debate by noting that ideology has driven the education system in Wales, leaving it lagging behind in a UK and international context. He referred to there being no leadership or delivery in the health service, therefore creating chaos by failing to take into consideration people, patients and practitioners. As he noted, the absent First Minister, chief petty officer Jones, has changed the deck chairs on the Titanic, keeping the same old gang together, which is not good enough for the people of Wales.

Diolch i bawb am eu cyfraniadau, a phleser o'r mwyaf oedd clywed cymaint mwy o synnwyr cyffredin nag y byddwn yn ei glywed fel arfer mewn dadleuon yn y Siambr.

Agorodd arweinydd yr wrthblaid y ddadl drwy nodi mai ideoleg sydd wedi bod wrth wraidd y gyfundrefn addysg yng Nghymru, gan olygu ei bod ar ei hôl hi yng nghydestun y DU ac yn rhyngwladol. Cyfeiriodd at y ffaith nad oedd arweinyddiaeth na'r gallu i gyflawni yn y gwasanaeth iechyd, gan greu anhrefn drwy fethu ag ystyried pobl, cleifion ac ymarferwyr. Fel y nododd, mae'r Prif Weinidog absennol, prif is-swyddog Jones, wedi newid y cadeiriau dec ar y Titanic, gan gadw'r un hen griw gyda'i gilydd, nad yw'n ddigon da i bobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams, said that although they will not support our amendment, they shared our concern that Welsh unemployment exceeds the UK level, and that while the UK has moved up the world ranking of global competitiveness, Wales still hangs at the bottom of the UK's 12 nations and regions as a place for competitive economy. As she said, we must be determined to break the link between poverty and attainment. That means that we must tackle underachievement wherever we find it, and not just rely on a pupil premium.

Mohammad Asghar referred rightly to the crisis facing our high streets, to the need for better transport links and for small businesses to be exempt from business rates.

Byron Davies talked about the abject failure of the Welsh Government to deliver improvements to the lives of the people of Wales and the lazy Labour attitude exemplified by failing to cross the picket line today. I would remind Labour Members that this Assembly is a Parliament: a Parliament for all of the people, 24 hours a day, seven days a week, every week between the Welsh general elections. We may or may not have sympathies for any one interest or another, but our duty is to be here for all of the people of Wales and I condemn those puppet politicians—those immature politicians who bring the reputation of this Assembly into disrepute.

This Welsh Government, as Byron said, is perpetuating poverty for personal gain, with a focus on party ambition rather than giving the people of Wales a hand up. Workless households across the UK rose by 200,000 under the previous UK Government, and one in three working-age households in Wales were workless under this Welsh Labour Government prior to the change of the UK Government, which is one in three working-age people in Wales. As Byron said, we need to unite regeneration and economic development.

Nick Ramsay quite rightly referred to the people across Wales who are struggling to make ends meet, while Labour and Plaid Cymru Members stay away. He referred to the Chancellor's positive announcement of the increase in tax allowance for those on the lowest incomes. As he said, the UK Government in Westminster is taking the actions necessary; difficult actions at a difficult time in difficult circumstances that were not of this UK Government's making. Fourteen years of Labour-led Welsh Governments has failed to stimulate the economy and to tackle worklessness in Wales. He also referred to the positive Welsh Conservative policies on bank lending to businesses and rejuvenating our high streets.

Since devolution, Labour-led Welsh Governments have failed to tackle the root causes of poverty. We believe in prioritising and combating the root causes of all poverty—child and adult poverty—including tackling poor education, crime, drug and alcohol dependency and urging adequate access to childcare and transportation, which might prevent people from accessing work. By contrast, the Bevan Foundation—

Dywedodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Kirsty Williams, er na fyddant yn cefnogi ein gwelliant, eu bod yn rhannu ein pryder bod diweithdra yng Nghymru yn uwch na lefel y DU, a thra bod y DU wedi gwella o ran cystadleurwydd byd-eang, mae Cymru yn dal ar waelod 12 gwlad a rhanbarth y DU fel lle i economi gystadleuol. Fel y dywedodd, rhaid inni fod yn benderfynol o dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid inni fynd i'r afael â thangyflawniad ymhle bynnag y'i gwelwn, ac nid dim ond dibynnu ar bremiwm disgyblion.

Cyfeiriodd Mohammad Asghar yn gwbl briodol at yr argyfwng sy'n wynebu'r stryd fawr, at yr angen am well cysylltiadau trafndiaeth ac at eithrio busnesau bach rhag talu ardrethi busnes.

Soniodd Byron Davies am fethiant llwyr Llywodraeth Cymru i gyflwyno gwelliannau i fywydau pobl Cymru a'r agwedd Lafur ddiog a ddangoswyd gan ei methiant i groesi'r llinell biced heddiw. Hoffwn atgoffa Aelodau Llafur mai Senedd yw'r Cynulliad: Senedd i'r holl bobl, bob awr o'r dydd a'r nos, saith diwrnod yr wythnos, bob wythnos rhwng etholiadau cyffredinol Cymru. Efallai y byddwn yn cydymdeimlo â rhyw garfan neu'i gilydd, ond ein dyletswydd yw bod yma dros holl bobl Cymru ac rwy'n condemnio'r pypedau o wleidyddion—y gwleidyddion anaeddfed hynny sy'n dwyn anfri ar y Cynulliad.

Mae'r Llywodraeth hon yng Nghymru, fel y dywedodd Byron, yn gadael i dlodi barhau er budd personol, gan ganolbwyntio ar uchelgais y blaid yn hytrach na rhoi help llaw i bobl Cymru. Cynyddodd nifer yr aelwydydd di-waith ledled y DU 200,000 o dan Lywodraeth flaenorol y DU, ac roedd un o bob tair aelwyd o oedran gweithio yng Nghymru yn ddi-waith o dan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru cyn newid Llywodraeth y DU, sef un o bob tri o oedran gweithio yng Nghymru. Fel y dywedodd Byron, mae angen inni uno adfywio a datblygu economaidd.

Cyfeiriodd Nick Ramsay yn gwbl briodol at y bobl ledled Cymru sy'n cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd, tra bo Aelodau'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn cadw draw. Cyfeiriodd at gyhoeddiad cadarnhaol y Canghellor ynglŷn â'r cynnydd yn y lwfans treth i'r rhai sydd ar yr incwm isaf. Fel y dywedodd, mae Llywodraeth y DU yn San Steffan yn cymryd y camau angenrheidiol; camau anodd ar adeg anodd o dan amgylchiadau anodd nad oedd Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt. Mae 14 blynedd o Lywodraethau yng Nghymru o dan arweiniad Llafur wedi methu ag ysgogi'r economi a mynd i'r afael â diweithdra yng Nghymru. Cyfeiriodd hefyd at bolisiau cadarnhaol y Ceidwadwyr Cymreig ar fenthyciadau gan fanciau i fusnesau ac adnewyddu'r stryd fawr.

Ers datganoli, mae Llywodraethau yng Nghymru o dan arweiniad Llafur wedi methu â mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi. Credwn mewn blaenoriaethu achosion sylfaenol pob math o dlodi—tlodi plant ac oedolion—a mynd i'r afael â hwy gan gynnwys addysg wael, troseddu, dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol ac annog mynediad digonol at ofal plant a chludiant, a allai atal pobl rhag cael gwaith. Ar y llaw arall, mae Sefydliad Bevan—

13:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Please finish now, Mark. Gorfennwch yn awr os gwelwch yn dda, Mark.

13:57 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The Bevan Foundation has criticised the tackling poverty action plan noting that some of the actions in the plan are unlikely to have any impact on poverty— Mae Sefydliad Bevan wedi beirniadu'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi gan nodi y bydd rhai o'r camau gweithredu yn y cynllun yn annhebygol o gael unrhyw effaith ar dlodi—

13:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you. The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections. I defer voting under this item until voting time. Diolch. Y cynnig yw y dylid cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiadau. Gohiriaf y bleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Agenda Lleoliaeth yng Nghymru

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.

Cynnig NDM5195 William Graham

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi blaenoriaeth uwch i agenda lleoliaeth yng Nghymru; gan sicrhau bod cymunedau yng Nghymru yn elwa o fwy o benderfyniadau a grymuso lleol.

Welsh Conservatives Debate: Welsh Localism Agenda

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.

Motion NDM5195 William Graham

The National Assembly for Wales:

Calls on the Welsh Government to give greater priority to a Welsh localism agenda; ensuring communities in Wales benefit from increased local determination and empowerment.

13:57 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move the motion. Cynigiaf y cynnig.

I would like to say how honoured I am, as the elected Assembly Member for Aberconwy, to move today's debate. We are democratically elected and democratically accountable to our electorate out there in Wales.

I note the appalling turnout that we saw in last year's local authority elections: 39% compared with 43% in 2008. This steady rise in voter apathy is of huge concern, and it is crystal clear that the electorate feel disenfranchised by the process of which elected members of Government in Wales should take note. I would hope that they would take note, if they were present. I feel really sad for all those people who bothered to go out to cast their votes on 5 May 2011 to witness what I see here today. Frankly, it is appalling. For too long, this Welsh Labour Government has had a centralist, statist approach towards the people of Wales and this is our chance to speak up for them today.

Hoffwn ddweud faint o anrhydedd yw imi, fel yr Aelod Cynulliad etholedig dros Aberconwy, gyflwyno'r ddadl heddiw. Rydym yn cael ein hethol yn ddemocrataidd ac rydym yn atebol yn ddemocrataidd i'n hetholwyr yng Nghymru.

Nodaf y ganran echrydus a bleidleisiodd yn etholiadau awdurdodau lleol y llynedd: 39% o gymharu â 43% yn 2008. Mae'r cynnydd cyson hwn mewn difaterwch ymhlith pleidleiswyr yn peri pryder enfawr, ac mae'n hollol amlwg bod yr etholwyr yn teimlo eu bod wedi'u difreinio gan y broses— rhywbeth y dylai aelodau etholedig y Llywodraeth yng Nghymru gymryd sylw ohono. Byddwn yn gobeithio y byddent yn cymryd sylw, pe baent yn bresennol. Teimlaf yn flin iawn dros yr holl bobl hynny a drafferthodd fwrw eu pleidlais ar 5 Mai 2011 i weld yr hyn a welaf yma heddiw. Mae'n warthus, a dweud y gwir. Ers llawer gormod o amser, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi mabwysiadu ymagwedd ganoliaethol a gwladoliaethol tuag at bobl Cymru a dyma ein cyfle i siarad ar eu rhan heddiw.

I would like to move on to our community agenda. From my own experiences, it is clear that valuable community assets in Wales are diminishing and many are feeling powerless to influence these decisions. From the Campaign for Real Ale's figures in 2012, 300 public houses across Britain closed permanently in a six-month period. More recently, we have heard that there are 18 pub closures a week. In my own constituency, public houses are closing on an almost weekly basis. This is ripping the beating heart out of our Welsh villages and communities, leaving our residents feeling bereft of the many local facilities that they are losing.

Under the Localism Act 2011, the community right to build gives local communities the right to prepare and bid for assets, such as their local pubs, to prevent them from being sold off or demolished in this way. The Localism Act gives neighbourhoods more of a say over planning and development in their areas, including the community right to build and neighbourhood planning, which enables communities to choose where they want new homes, shops and offices to be built, to grant planning permission for the buildings that they want and to even say what new buildings should look like. We must seek to implement these measures in Wales in order to give our communities more say over their future. Yet, in trying to save just one public house in my own constituency, and despite local residents raising some £60,000, the so-called Wales economic growth fund states that they are ineligible if there are other pubs, restaurants, shops and post offices within 50 miles. Left to this Welsh Government, I can assure you, there will not be for long.

On the transparency agenda, it is clear that many concerns are around a lack of engagement and transparency within some local authorities. Caerphilly County Borough Council is a typical example, where the Wales Audit Office has deemed unlawful the decision of its own chief executive to award himself a £25,000 pay rise at a time when many front-line workers, in that local authority and in local authorities across Wales, face the third year of a pay freeze. That is such hypocrisy, which is also present here today, when Welsh Labour Ministers are absent from this democratically accountable elected Chamber.

Added to that is the fact that Welsh council tax payers are witnessing council tax increases of 140% since Labour came into power as well as further inflation-busting increases this year, including Ynys Môn at 5%—the highest in Wales. We know that the UK Government has handed more than enough funding to the Welsh Labour Government to freeze council tax for all residents for the last three years. However, Welsh Labour Ministers prefer to spend that money from the taxpayers on their own preferred pet projects.

Hoffwn symud ymlaen at ein hagenda gymunedol. O'm profiadau fy hun, mae'n amlwg bod asedau cymunedol gwerthfawr yng Nghymru yn crebachu a bod llawer yn teimlo'n ddi-rym wrth ddylanwadu ar y penderfyniadau hyn. Yn ôl ffigurau'r Ymgyrch dros Gwrw Go lawn yn 2012, caeodd 300 o dafarndai am byth ledled Prydain mewn cyfnod o chwe mis. Yn fwy diweddar, rydym wedi clywed bod 18 o dafarndai yn cau bob wythnos. Yn fy etholaeth fy hun, mae tafarndai yn cau bron bob wythnos. Mae hyn yn rhwygo calon ein pentrefi a'n cymunedau yng Nghymru, gan adael i'n trigolion deimlo'n amddifad o'r cyfleusterau lleol niferus y maent yn eu colli.

O dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, mae'r hawl gymunedol i adeiladu yn rhoi hawl i gymunedau lleol baratoi a gwneud cais am asedau, megis eu tafarnau lleol, i'w hatal rhag cael eu gwerthu neu eu dymchwel yn y modd hwn. Mae'r Ddeddf Lleoliaeth yn rhoi mwy o lais i gymdogaethau dros gynllunio a datblygu yn eu hardaloedd, gan gynnwys yr hawl gymunedol i adeiladu a chynllunio cymdogaethol, sy'n galluogi cymunedau i ddewis lle maent am i gartrefi, siopau a swyddfeydd newydd gael eu hadeiladu, i roi caniatâd cynllunio ar gyfer yr adeiladau y maent eu heisiau a hyd yn oed dweud pa fath o adeiladau y dylid eu codi. Rhaid inni geisio gweithredu'r mesurau hyn yng Nghymru er mwyn rhoi mwy o lais i'n cymunedau dros eu dyfodol. Ond eto, wrth geisio achub un tafarndy yn fy etholaeth, ac er i'r trigolion lleol godi oddeutu £60,000, mae'r gronfa twf economaidd, fel y'i gelwir, i Gymru yn nodi nad ydynt yn gymwys os oes tafarnau, bwytai, siopau a swyddfeydd post eraill o fewn 50 milltir. Yn nwylo'r Llywodraeth hon yng Nghymru, gallaf eich sicrhau na fydd unrhyw rai cyn hir.

O ran tryloywder, mae'n amlwg bod llawer o bryderon yn ymwneud â diffyg ymgysylltu a thryloywder o fewn rhai awdurdodau lleol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn enghraifft nodweddiadol, lle mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi barnu bod penderfyniad ei brif weithredwr ei hun i ddyfarnu codiad cyflog o £25,000 iddo'i hun ar adeg pan fo cyflog llawer o weithwyr rheng flaen, yn yr awdurdod lleol hwnnw ac mewn awdurdodau lleol ledled Cymru, yn cael eu rhewi am y drydedd flwyddyn yn olynol, yn anghyfreithlon. Am ragrith, sydd hefyd yn bresennol yma heddiw, pan fo Gweinidogion Llafur Cymru yn absennol o'r Siambr etholedig hon sy'n atebol yn ddemocrataidd.

Ar ben hynny y mae'r ffaith bod talwyr treth cyngor Cymru wedi gweld cynnydd o 140% yn y dreth gyngor ers i Lafur ddod i rym yn ogystal â chynnydd arall eleni sy'n uwch na chwyddiant, gan gynnwys Ynys Môn, sef 5%—yr uchaf yng Nghymru. Gwyddom fod Llywodraeth y DU wedi rhoi mwy na digon o arian i Lywodraeth Lafur Cymru rewi'r dreth gyngor i holl drigolion Cymru am y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n well gan Weinidogion Llafur Cymru wario'r arian hwnnw gan y trethdalwyr ar eu hoff brosiectau eu hunain.

We have witnessed the prevention of tweeting and filming of council business, prompting the Secretary of State for Communities and Local Government, Eric Pickles, to label it on Twitter as '#daftarrest'. Some local authorities have barred the media and the public from so many important council meetings. In 2012, two authorities in north Wales had as many as four out of five meetings in which they excluded the press and public at some stage during those proceedings. The Welsh Conservatives believe in transparency, openness, efficiency, financial probity and, most of all, democratic accountability. The Localism Act 2011 in the UK has driven a coach and horses through secrecy, bureaucratic nonsense and blatant inefficiency.

Communities in England have the opportunity to become informed, a chance to influence and a basic right to challenge poor decision making, unethical corporate governance and wasteful, inefficient spending. The Localism Act 2011 would give people an automatic right to call a referendum on excessive council tax rises. It would free up armchair auditors to be able to view all public expenditure over £500, and it would allow the press and the public to film and tweet during meetings under the Local Authorities (Executive Arrangements) (Meetings and Access to Information) (England) Regulations 2012.

It is time that the Welsh Government follows our calls for transparency, openness, efficiency, financial probity and, most of all, democratic accountability. In essence, it is clear that Wales is lacking full and frank consultation, engagement and accountability with those that all elected members, at any level of government, are duty bound to represent. The buck stops here. The Welsh Government should lead by example. Today is a classic example. To abstain from Assembly proceedings when these important debates are taking place is a blatant betrayal of democratic accountability. Thank you; diolch yn fawr iawn.

Rydym wedi gweld cynghorau yn atal pobl rhag trydar a ffilmio busnes cyngor, gan beri i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, Eric Pickles, ddisgrifio'r achos ar Twitter fel '#daftarrest'. Mae rhai awdurdodau lleol wedi gwahardd y cyfryngau a'r cyhoedd o gymaint o gyfarfodydd cyngor pwysig. Yn 2012, gwnaeth dau awdurdod yn y gogledd gynnal cymaint â phedwar o bob pum cyfarfod lle y roedd y wasg a'r cyhoedd wedi'u gwahardd ar ryw adeg yn ystod y trafodion. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn tryloywder, bod yn agored, effeithlonrwydd, gonestrwydd ariannol ac, yn bwysicaf oll, atebolrwydd democrataidd. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn y DU wedi chwalu gorgyfrinachedd, nonsens biwrocraidd ac aneffeithlonrwydd amlwg.

Mae cymunedau yn Lloegr yn cael cyfle i gael gwymbodaeth, cyfle i ddylanwadu a hawl sylfaenol i herio penderfyniadau gwael, llywodraethu corfforaethol anfoesegol a gwariant aneffeithlon a gwastraffus. Byddai Deddf Lleoliaeth 2011 yn rhoi hawl ddiamod i bobl alw am refferendwm ar gynnydd gormodol yn y dreth gyngor. Byddai'n rhoi cyfle i archwilywyr pen pentan allu gweld yr holl wariant cyhoeddus dros £500, a byddai'n caniatáu i'r wasg a'r cyhoedd ffilmio a thrydar yn ystod cyfarfodydd o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyfarfodydd a Mynediad at Wybodaeth) (Lloegr) 2012.

Mae'n bryd i Lywodraeth Cymru ymateb i'n galwadau am dryloywder, bod yn agored, effeithlonrwydd, gonestrwydd ariannol ac, yn bwysicaf oll, atebolrwydd democrataidd. Yn ei hanfod, mae'n amlwg, yng Nghymru, nad oes ymgynghori llawn nac agored, ymgysylltu nac atebolrwydd i'r rhai y mae dyletswydd ar holl aelodau etholedig, ar unrhyw lefel o lywodraeth, i'w cynrychioli. Yma y mae'r cyfrifoldeb. Dylai Llywodraeth Cymru arwain drwy esiampl. Mae heddiw yn enghraifft glasurrol. Mae ymatal o drafodion y Cynulliad pan fydd y dadleuon pwysig hyn yn cael eu cynnal yn enghraifft amlwg o fradychu atebolrwydd democrataidd. Diolch yn fawr.

14:03

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the amendment to the motion and I call on Peter Black to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd modd gwella penderfyniadau a grymuso lleol yn sylweddol drwy:

a) cyflwyno'r Bleidlais Sengl Drosgrwyddadwy ar gyfer etholiadau cynghorau lleol;

b) caniatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol; ac

c) datganoli plismona i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod plismona'n gallu ymateb i anghenion cymunedau lleol.

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Amendment 1—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Believes that increased local determination and empowerment will be significantly improved by:

a) the introduction of the Single Transferable Vote for elections to local councils;

b) allowing 16 and 17 year olds to vote in elections to local councils; and

c) the devolution of policing to the National Assembly for Wales to ensure that policing can respond to local communities' needs.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendment 1 in the name of Aled Roberts.

Cynigaf welliant 1 yn enw Aled Roberts.

I welcome Janet Finch-Saunders's commitment to democratic accountability because that is exactly what this amendment is all about. Its aim is to ensure that when we have a democratic system, we will have one that works and that ensures that we have councils that are representative of local people and have the appropriate powers they need to deliver the agenda that we want them to deliver. Although the Localism Act was passed at Westminster and applies to England, I have always reserved the position that, in Wales, we should do what is appropriate to Wales. I am not a great fan of referenda because I think that, provided you have proper democratic accountability through elections and provided that the outcome of those elections reflect how people vote, you do not need to have referenda to ensure that councillors do the job that they are elected to do, which is, after all, to make decisions, not as delegates, but as representatives. That is the important basis of our democracy. Once you start going down the referendum route, you get to a situation where you do not make sensible decisions; effectively, you make decisions based on populism and the power of the press. I am not particularly keen on that because, sometimes, it does not always work out in the right way.

Croesawaf ymrwymiad Janet Finch-Saunders i atebolrwydd democrataidd oherwydd dyna'n union yw nod y gwelliant hwn. Ei ddiben yw sicrhau, os oes gennym system ddemocrataidd, bod gennym un sy'n gweithio ac sy'n sicrhau bod cynghorau yn cynrychioli pobl leol ac yn meddu ar y pwerau priodol y mae eu hangen arnynt i gyflawni'r agenda yr ydym am iddynt ei chyflawni. Er i'r Ddeddf Lleoliaeth gael ei phasio yn San Steffan ac mai i Loegr y mae'n berthnasol, rwyf bob amser wedi bod o'r farn y dylem ni yng Nghymru, wneud yr hyn sy'n briodol i Gymru. Nid wyf yn hoff iawn o refferenda oherwydd credaf, ar yr amod bod atebolrwydd democrataidd priodol drwy etholiadau ac ar yr amod bod canlyniad yr etholiadau hynny yn adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn pleidleisio, nad oes angen ichi gynnal refferenda i sicrhau bod cynghorwyr yn gwneud y gwaith y maent wedi'u hethol i'w wneud, sef, wedi'r cyfan, gwneud penderfyniadau, nid fel dirprwyon, ond fel cynrychiolwyr. Dyna seiliau pwysig ein democratiaeth. Unwaith eich bod yn dechrau sôn am refferenda rydych yn cyrraedd sefyllfa lle nad ydych yn gwneud penderfyniadau synhwyrol; rydych yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig, i bob diben, ar yr hyn sy'n boblogaidd yn unig a grym y wasg. Nid wyf yn fudlon iawn ynghylch hynny oherwydd, weithiau, nid yw bob amser yn arwain at y canlyniad iawn.

Turning to the basis for our amendment, we believe that a single transferable vote is the way forward in electing local councils, simply because reforming local democracy is about more than whether or not a council acquires additional powers; it is about overhauling completely how councils represent their communities. A single transferable vote empowers electors by giving them a wider choice, makes councils more proportional and ensures that a greater proportion of the electorate is represented by the party of its choice in its ward.

Gan droi at sail ein gwelliant, credwn mai pleidlais sengl drosglwyddadwy yw'r ffordd ymlaen i ethol cynghorau lleol, yn syml oherwydd mae diwygio democratiaeth leol yn golygu mwy na phennu pa un a oes angen i gyngor gael pwerau ychwanegol; mae'n ymwneud â thrawsnewid y ffordd y mae cynghorau yn cynrychioli eu cymunedau. Mae pleidlais drosglwyddadwy sengl yn grymuso etholwyr drwy roi dewis ehangach iddynt, gwneud cynghorau'n fwy cyfrannol a sicrhau bod cyfran uwch o etholwyr yn cael ei chynrychioli gan y blaid a ddewiswyd yn eu ward.

In Scotland, they have also empowered local communities by reducing uncontested elections; there were 61 in 2003, while there were no uncontested elections in 2007. Voter choice has more than doubled, which means that people have a choice every time they go out to vote. There is consistent evidence that the single transferable vote improves the diversity of candidates and elected councillors. This is true empowerment—empowering the voters, giving them a choice and ensuring that their choice is reflected in the outcome. This sweeps away one-party states and safe seats, and ensures that local democracy represents the whole of a council's residents. It is a shame that that has not been incorporated into your motion, but I am sure that you are going to be putting that right by supporting our amendment today. [Laughter.]

Yn yr Alban, maent hefyd wedi grymuso cymunedau lleol drwy leihau nifer yr etholiadau diwrthwynebiad; roedd 61 yn 2003, ond nid oedd dim yn 2007. Mae'r dewis i bleidleiswyr wedi mwy na dyblu, sy'n golygu bod pobl yn cael dewis bob tro y byddant yn mynd i bleidleisio. Mae tystiolaeth gyson fod y pleidlais sengl drosglwyddadwy yn gwella'r amrywiaeth o ymgeiswyr a chynghorwyr etholedig. Mae hyn yn wir yn grymuso—grymuso'r pleidleiswyr, gan roi dewis iddynt a sicrhau bod eu dewis yn cael ei adlewyrchu yn y canlyniad. Mae hyn yn cael gwared ar daleithiau un blaid a seddi diogel, ac yn sicrhau bod democratiaeth leol yn cynrychioli holl drigolion y cyngor. Mae'n drueni nad yw hynny wedi ei ymgorffori yn eich cynnig, ond rwy'n siŵr y byddwch yn unioni hynny drwy gefnogi ein gwelliant heddiw. [Chwerthin.]

The second part of our amendment relates to why responsibility for the police should be devolved to Wales. Local councils have the power to deliver on crime. Community policing methods require the empowerment of local councils. Therefore, the only way that we can put communities back in charge of safety in their areas and empower them to work with the police to cut crime in their areas is to ensure that the National Assembly and the Welsh Government are in charge of local government and policing.

Mae'r ail ran o'n gwelliant yn ymwneud â pham y dylid datganoli cyfrifoldeb am yr heddlu i Gymru. Mae gan gynghorau lleol y pŵer i gyflawni o ran troseddau. Mae dulliau plismona cymunedol yn ei gwneud yn ofynnol i rymuso cynghorau lleol. Felly, yr unig ffordd y gallwn roi'r cyfrifoldeb am ddiogelwch yn eu hardaloedd yn ôl i gymunedau a'u grymuso i weithio gyda'r heddlu i leihau troseddau yn eu hardaloedd yw drwy sicrhau mai'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am lywodraeth leol a phlismona.

14:07

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you not accept, Peter, that devolving these arrangements to police and crime commissioners means that they have been devolved on a much more local basis than would be the case if these matters were devolved to the National Assembly for Wales? We have an east-west criminality transfer, rather than a north-south transfer, so it makes sense to leave this cross-border arrangement as it is.

Onid ydych yn derbyn, Peter, fod datganoli'r trefniadau hyn i'r comisiynwyr heddlu a throseddau yn golygu eu bod wedi cael eu datganoli ar sail lawer mwy lleol nag y byddai wedi digwydd pa bai'r materion hyn wedi cael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? Mae troseddoldeb yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin, yn hytrach nag o'r gogledd i'r de, felly mae'n gwneud synnwyr i adael y trefniant trawsffiniol fel y mae.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:07

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is not an either/or argument. You can still have police commissioners if you want; that would be a matter for the Welsh Government. However, local government, social justice and community safety are already devolved, and we believe that policing fits more naturally with those issues than with the remaining reserved powers. Remember, more than 50% of the police commissioners' budget comes through the Welsh Government. The Government already deals with a whole range of issues with which police commissioners and the police also deal. There is no reason at all, in our view, why we should not enable the police to be accountable to us in the Assembly, rather than to Westminster, so that we can develop a proper Welsh agenda in collaboration with the police commissioners.

Nid yw hon yn ddadl lle mae rhywun yn gorfod dewis y naill neu'r llall. Gallwch gadw'r comisiynwyr heddlu os dymunwch; mater i Lywodraeth Cymru fyddai hynny. Fodd bynnag, mae llywodraeth leol, cyfiawnder cymdeithasol a diogelwch cymunedol eisoes wedi'u datganoli, a chredwn fod plismona yn cyd-blethu'n fwy naturiol â'r materion hynny na'r pwerau a gadwyd yn ôl. Cofiwch, mae dros 50% o gyllideb y comisiynwyr heddlu yn dod drwy Lywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth eisoes yn ymdrin ag ystod eang o faterion y mae'r comisiynwyr heddlu a'r heddlu hefyd yn ymdrin â hwy. Nid oes unrhyw reswm o gwbl, yn ein barn ni, pam na ddylem alluogi'r heddlu i fod yn atebol i ni yn y Cynulliad, yn hytrach nag i San Steffan, fel y gallwn ddatblygu agenda benodol i Gymru mewn cydweithrediad â'r comisiynwyr heddlu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Finally, we believe that giving the vote to those aged 16 will strengthen democratic accountability by ensuring that a wider section of the community is represented on the local council. Community empowerment comes, in part, by ensuring that as many people in the community as possible are heard by the local council. Having the vote at 16 years of age will reflect the host of responsibilities that young people, some of whom already pay taxes, have by enabling them to go out and vote and ensuring that they are represented on councils, either by standing themselves or by having a say on the people who spend the taxes on their behalf.

Yn olaf, credwn y bydd rhoi'r bleidlais i'r rhai 16 oed yn cryfhau atebolrwydd democrataidd drwy sicrhau bod rhan ehangach o'r gymuned yn cael ei chynrychioli ar y cyngor lleol. Gwelwn rymuso cymunedau, yn rhannol, drwy sicrhau bod llais cymaint o bobl â phosibl yn y gymuned yn cael ei glywed gan y cyngor lleol. Bydd pleidlais yn 16 oed yn adlewyrchu'r llu o gyfrifoldebau sydd gan bobl ifanc, y mae rhai ohonynt eisoes yn talu trethi, drwy eu galluogi i bleidleisio a sicrhau y cânt eu cynrychioli ar gynghorau, naill ai drwy sefyll eu hunain neu drwy gael dweud eu dweud am y bobl sy'n gwario'r trethi ar eu rhan.

14:08

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to focus my contribution on developing local energy policy and what I would like to see happening with further devolution of energy powers to Wales. It has been a long-standing position of the Conservative group to support devolving competency for energy powers up to 100 MW to Wales. In our last two manifestos, we have said that we want to continue to make that case, and I have stood by that pledge. Only last week, I met the Prime Minister and the Minister of State for Energy, John Hayes, with whom I had the opportunity to discuss these proposals.

Yn fy nghyfraniad hoffwn ganolbwyntio ar ddatblygu polisi ynni lleol a'r hyn yr hoffwn ei weld yn digwydd o ddatganoli rhagor o bwerau dros ynni i Gymru. Bu'n bolisi gan y grŵp Ceidwadol ers amser i gefnogi datganoli cymhwysedd dros bwerau ynni hyd at 100 MW i Gymru. Yn ein dau fanifesto diwethaf, rydym wedi dweud ein bod am barhau i ddadlau o blaid hynny, ac rwyf wedi cadw'r adduned honno. Dim ond yr wythnos diwethaf, cefais gyfarfod â Phrif Weinidog y DU a'r Gweinidog Gwladol dros Ynni, John Hayes, y cefais gyfle i drafod y cynigion hyn gydag ef.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Where I think that we differ from other parties in Wales is that we are not content that these powers should simply reside with Welsh Ministers. We want enhanced energy devolution that will ensure that key decisions in relation to energy policy are made closer to the people affected. As it stands, consents in relation to projects up to 50 MW reside with local planning authorities, and we would be prepared not only to see that situation continue, but to have further powers delegated to them to ensure that local decision making is at the heart of any planning determination. Of course, some people will say that a national strategic policy would not be passed. I disagree with that analysis. Why? It is because human beings are fundamentally pragmatic; they are resourceful and willing to find solutions that not only benefit them as individuals, but benefit their communities as well as, ultimately, the country as a whole. It is about not abandoning a strategy, but building a strategic picture from the bottom up, rather than from the top down. That does not mean that there is not a role for central Government. There is, of course. However, that role is a supporting role, to ensure that enough resources and expertise are channelled to a local level, so there is sufficient capacity to discharge those powers properly.

Communities in California, for example, are doing this on a large scale. The situation there was that many ethnic communities were finding themselves at the back end of an energy policy that was socially deeply corrosive. They had polluting oil refineries and power plants imposed upon them, because central policy makers thought that they would simply accept it without complaining. In the last decade, a revolution has started and energy policy making has been replaced by communities making decisions on energy policy that directly impact on them, rather than decisions being controlled by large utilities and policy makers who are detached from communities. They are working on such a decentralised scale that they have developed integrated, smart micro-grids not only to ensure that they are totally self-sufficient on renewable energy or mixed technologies, but to allow them to participate in energy enterprise.

This is beginning to happen in the UK, but we are just scratching the surface. I would like to see this accelerated, because it is real localism in action and a model that communities facing the prospect of having large-scale energy projects imposed upon them will find far more preferable. Let me also be clear that protesters against the industrialisation of mid Wales in Montgomeryshire are not NIMBYs—not in my back yards—and they are not unwilling to do their bit to mitigate climate change. They are just not prepared to suffer the central imposition of a technology and infrastructure that are of such a scale that they become socially harmful. Neither are they willing to fork out £2.8 million of their money to defend that position. They want to harness renewable energy technology; they want to drive forward hydro projects, for example—I know that I am not the only Member here who has cases where the Environment Agency is hindering such developments. These communities just want to be set free to get on with it.

Y gwahaniaeth rhyngom ni a'r pleidiau eraill yng Nghymru yw nad ydym yn fodlon i'r pwerau hyn fod yn nwylo Gweinidogion Cymru. Rydym am gael mwy o ddatganoli ynni a fydd yn sicrhau bod penderfyniadau allweddol mewn perthynas â pholisi ynni yn cael eu gwneud yn nes at y bobl yr effeithir arnynt. Fel y saif, awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am roi caniatâd ar gyfer prosiectau hyd at 50 MW, a byddem yn barod nid yn unig i weld y sefyllfa honno'n parhau, ond i ddirprwyo rhagor o bwerau iddynt er mwyn sicrhau mai proses gwneud penderfyniadau leol sydd wrth wraidd unrhyw benderfyniad cynllunio. Wrth gwrs, bydd rhai pobl yn dweud y byddai polisi strategol cenedlaethol yn chwalu am na fyddai prosiectau seilwaith mawr yn cael caniatâd. Anghytunaf â'r dadansoddiad hwnnw. Pam? Am mai bodau ymarferol yw pobl yn y bôn; maent yn ddyfeisgar ac yn barod i ddod o hyd i atebion sydd nid yn unig o fudd iddynt hwy fel unigolion, ond o fudd i'w cymunedau a hefyd, yn y pen draw, y wlad gyfan. Nid yw'n golygu cefnu ar strategaeth, ond yn hytrach mae'n golygu creu darlun strategol o'r gwaelod i'r brig, yn hytrach nag o'r brig i lawr. Nid yw hynny'n golygu nad oes rôl i'r Llywodraeth ganolog. Wrth gwrs y byddai rôl iddi. Fodd bynnag, mae'r rôl yn un ategol, er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ac arbenigedd yn cael eu sianelu i lefel leol, felly mae digon o adnoddau i gyflawni'r pwerau hynny yn briodol.

Mae cymunedau yng Nghalifornia, er enghraifft, yn gwneud hyn ar raddfa fawr. Y sefyllfa a gododd yno oedd bod llawer o gymunedau ethnig yn dwyn baich polisi ynni a oedd yn hynod wenwynig yn gymdeithasol. Cafodd purfeydd olew a oedd yn llygru a gweithfeydd pŵer eu gorfodi arnynt, am fod gwneuthurwyr polisi canolog yn meddwl y byddent yn derbyn hynny heb gwyno. Yn y degawd diwethaf, dechreuodd chwyldro ac mae'r broses o wneud polisi ynni wedi cael ei disodli gan broses lle mae cymunedau yn gwneud penderfyniadau ar bolisi ynni sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt, yn hytrach na phroses sy'n cael ei rheoli gan gyfleustodau mawr a gwneuthurwyr polisi sydd wedi'u datgysylltu oddi wrth gymunedau. Maent yn gweithio ar y fath raddfa ddatganoledig nes eu bod wedi datblygu micro-gridiau deallus integredig nid yn unig i sicrhau eu bod yn hollol hunangynhaliol o ran technolegau ynni adnewyddadwy neu gymysg, ond i'w galluogi i gymryd rhan mewn menter ynni.

Mae hyn yn dechrau digwydd yn y DU, ond dim ond crafu'r wyneb yr ydym yn ei wneud. Hoffwn weld y broses hon yn cyflymu, oherwydd mae hyn yn lleoliaeth go iawn ar waith ac yn fodel a fydd yn llawer mwy dymunol i gymunedau sy'n wynebu'r posibilrwydd y câi prosiectau ynni ar raddfa fawr eu gorfodi arnynt. Gadewch imi fod yn glir hefyd nad pobl 'nid yn fy iard gefn' yw'r rhai sy'n protestio yn erbyn diwydiannu'r canolbarth yn Sir Drefaldwyn, ac nid ydynt yn amharod i wneud eu rhan i liniaru newid yn yr hinsawdd. Yn syml, nid ydynt yn barod i ddioddef y canol yn gosod technoleg a seilwaith ar y fath raddfa ag sy'n gymdeithasol niweidiol. Nid ydynt ychwaith yn barod i dalu £2.8 miliwn o'u harian eu hunain i amddiffyn y safbwynt hwnnw. Maent yn awyddus i harneisio technoleg ynni adnewyddadwy; maent am fwrw ymlaen â phrosiectau dŵr trydan, er enghraifft—gwn nad fi yw'r unig Aelod yma ag achosion lle mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn llesteirio datblygiadau o'r fath. Mae'r cymunedau hyn ond am gael y rhyddid i fwrw ymlaen â hi.

To conclude, the case can be made to devolve more energy powers, but I would urge the Welsh Government to re-examine what is proposed in the Silk commission report in a bid to truly empower our communities and set them free. The First Minister and the Welsh Government's energy policies to industrialise mid Wales are deeply harmful. It is a real shame that the First Minister is not here today to listen to this debate. I hope that the Ministers will reflect on not being here today, Deputy Presiding Officer, as I think it is extremely wrong.

I gloi, gellir dadlau dros ddatganoli mwy o bwerau ynni, ond byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i ailedrych ar yr hyn a gynigir yn adroddiad comisiwn Silk mewn ymgais i wir rymuso ein cymunedau a rhoi pob rhyddid iddynt. Mae polisiâu ynni Prif Weinidog Cymru a Llywodraeth Cymru i ddiwydiannu'r canolbarth yn hynod niweidiol. Mae'n drueni mawr nad yw'r Prif Weinidog yma heddiw i wrando ar y ddatl hon. Gobeithiaf y bydd y Gweinidogion yn myfyrio ar ei absenoldeb heddiw, Ddirprwy Lywydd, gan fy mod yn credu ei bod yn hynod amhriodol.

14:14

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to take part in this debate this afternoon. At the heart of our localism agenda is our invest Wales policy, and I want to concentrate my contribution on that today. Our policy, if implemented by the Welsh Government, would help our striving small-business owners to access finance, which is imperative for the growth, maintenance and success of any business. More importantly, they would be able to do it in a way that would be straightforward and local. I am pleased that the Labour Party leader, Ed Miliband, has recognised these challenges and said that Labour in England would seek to establish a network of regional banks, if elected, to help small businesses to get access to finance. Similar to our proposals, he has called for a network of lenders in every major region of England based on the Sparkassen model in Germany.

These banks would have a civic duty to promote local growth and only lend to firms operating in their local area. Members will already be aware that our policy document seeks to create an invest Wales board, which would sit independently from the Welsh Government with a director who would report quarterly to it—similar to the relationship between the Governor of the Bank of England and the UK Government. There would be six regional board members, each one responsible for a regional branch of invest Wales, which, in turn, would fund SMEs in that specific region. The board would be responsible for setting branding, business counselling advice and online banking facilities. Repayments from the loans would be reinvested in the region and go towards funding further SME loans, further supporting the local economy.

As part of our policy, high-street banks, building societies, post offices, independent banks and other financial institutions would all be invited to tender for each region, to enter into a 50:50 partnership with invest Wales. I believe that that would provide two benefits. First, it would ensure extra lending by high-street banks, because loans that the banks would previously have turned down, due to the costs outweighing the benefits, would, in fact, be administered by invest Wales. Secondly, only half the risk would be borne by the state. This kind of partnership encourages high-street lending, not just state banking. Indeed, this partnership is similar to the funding-for-lending scheme that has been in operation since August 2012 and that has recently been reported to have increased mortgage lending, according to the financial adviser earlier this year.

Rwy'n falch o gael cymryd rhan yn y ddatl hon y prynhawn yma. Wrth wraidd ein hagenda lleoliaeth y mae ein polisi buddsoddi Cymru, ac yn fy nghyfraniad hoffwn ganolbwyntio ar hynny heddiw. Byddai ein polisi, o gael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru, yn helpu ein perchnogion busnesau bach diwyd i gael gafael ar gyllid, sy'n hanfodol i dwf unrhyw fusnes, ei barhad a'i lwyddiant. Yn bwysicach na dim, byddent yn gallu gwneud hynny mewn ffordd syml a lleol. Rwy'n falch bod arweinydd y Blaid Lafur, Ed Miliband, wedi cydnabod yr heriau hyn a dywedodd y byddai'r Blaid Lafur yn Lloegr yn ceisio sefydlu rhwydwaith o fanciau rhanbarthol, pe câi ei hethol, i helpu busnesau bach i gael gafael ar gyllid. Yn debyg i'n cynigion ni, mae wedi galw am rwydwaith o fenthycwyr ym mhob rhanbarth mawr o Loegr yn seiliedig ar fodel Sparkassen yn yr Almaen.

Byddai dyletswydd ddinesig ar y banciau hyn i hyrwyddo twf lleol a byddent ond yn benthyca i gwmbiau sy'n gweithredu yn eu hardal leol. Bydd Aelodau eisoes yn ymwybodol bod ein dogfen bolisi yn ceisio creu bwrdd buddsoddi Cymru, a fyddai'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru gyda chyfarwyddwr a fyddai'n rhoi adroddiad bob chwarter iddi—yn debyg i'r berthynas rhwng Llywodraethwr Banc Lloegr a Llywodraeth y DU. Byddai chwe aelod bwrdd rhanbarthol, pob un yn gyfrifol am gangen ranbarthol o fuddsoddi Cymru, a fyddai, yn ei dro, yn ariannu busnesau bach a chanolig yn y rhanbarth penodol hwnnw. Y bwrdd fyddai'n gyfrifol am frandio, cyngor a chwmsela i fusnesau a chyfleusterau bancio ar-lein. Byddai'r ad-daliadau o fenthyciadau yn cael eu hailfuddsoddi yn y rhanbarth ac yn mynd tuag at ariannu benthyciadau pellach i fusnesau bach a chanolig, gan gefnogi'r economi leol ymhellach.

Fel rhan o'n polisi, byddai banciau'r stryd fawr, cymdeithasau adeiladu, swyddfeydd post, banciau annibynnol a sefydliadau ariannol eraill i gyd yn cael eu gwahodd i dendro ar gyfer pob rhanbarth, llunio partneriaeth 50:50 â buddsoddi Cymru. Credaf y byddai i hynny ddwy fantais. Yn gyntaf, byddai'n sicrhau benthyca ychwanegol gan fanciau'r stryd fawr, oherwydd byddai'r benthyciadau y byddai'r banciau wedi'u gwrthod yn flaenorol, am fod y costau yn gorbwysu'r buddiannau, yn cael eu gweinyddu mewn gwirionedd gan buddsoddi Cymru. Yn ail, dim ond hanner y risg y byddai'r wladwriaeth yn ei hysgwyddo. Mae'r math hwn o bartneriaeth yn annog benthyca gan y stryd fawr, nid dim ond bancio gwladol. Yn wir, mae'r bartneriaeth hon yn debyg i'r cynllun ariannu i fenthycia sydd wedi bod ar waith ers mis Awst 2012 y nodwyd yn ddiweddar iddo gynyddu benthyca morgesi, yn ôl y cynghorydd ariannol yn gynharach eleni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We believe that when a high-street bank cannot provide support, the various levers that the state has at its disposal must be used to its best advantage. Ultimately, this is about forging a strong and healthy relationship between small businesses, banks and the local community. An invest Wales bank manager would be employed within the financial institution that would host the model in that area. The individual would be responsible for giving advice and guidance on advertising, public relations, social media, applying for finance and building a business plan, as well as networking in the local area. An invest Wales bank manager would understand the needs of the local economy. He or she would think locally and act locally; he or she would understand the local people and local businesses. They would network locally and generate more business for their particular area, they would be responsible for administering the loan and they would abide by an invest Wales charter to ensure fairness in their local decisions.

By regionalising finance, local economies would be able to thrive, because the local invest Wales branches would understand the different economic characteristics of each region—understanding niche markets and industries that work well in one particular area. Invest Wales would bring financial support to small businesses on their doorstep, and I believe that a system of geographically accountable Welsh regional investment banks is the way forward in doing so. Indeed, Members will be aware that Civitas, the Institute for the Study of Civil Society, has also called for improved access to finance, building on the German model of local community-based banks that echoes our proposals.

Welsh Conservatives are ambitious for Wales and we believe in the Welsh people and in Welsh business. We want them to succeed and we believe that the Welsh Government could be doing more to ensure that small local businesses are not turned down outright when they try to access finance. Welsh Conservatives believe passionately in real devolution by handing more power and autonomy to our local communities. Invest Wales is another example of our localism policy agenda for Wales. I urge Members to support our motion.

14:19 **Suzy Davies** [Bywgraffiad Biography](#)

Members will be aware that the Welsh Government is proposing to introduce a heritage Bill at the end of this fourth Assembly term. I rather hope that its refusal to cross successive picket lines does not mean that it will run the risk of failing to complete its own legislative programme.

The Bill is an opportunity to make it more commonplace for smaller community groups to take responsibility for helping to preserve and interpret built heritage of local importance. The previous Minister envisaged an alliance of these smaller organisations, which would help to create the critical mass needed to support more ambitious community ownership and control of buildings.

Credwn, pan na all banc ar y stryd fawr roi cefnogaeth, fod yn rhaid i'r dulliau gwahanol sydd ar gael i'r wladwriaeth gael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl. Yn y pen draw, mae hyn yn ymwneud â chreu perthynas gref ac iach rhwng busnesau bach, banciau a'r gymuned leol. Byddai rheolwr banc buddsoddi Cymru yn cael ei gyflogi yn y sefydliad ariannol a fyddai'n cynnal y model yn yr ardal honno. Byddai'r unigolyn yn gyfrifol am roi cyngor ac arweiniad ar hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol, gwneud cais am gyllid a llunio cynllun busnes, yn ogystal â rhwydweithio yn yr ardal leol. Byddai rheolwr banc buddsoddi Cymru yn deall anghenion yr economi leol. Byddai'n meddwl yn lleol ac yn gweithredu'n lleol; byddai'n deall y bobl leol a'r busnesau lleol. Byddai'n rhwydweithio'n lleol ac yn creu mwy o fusnes i'w ardal neu i'w hardal benodol, byddai'n gyfrifol am weinyddu'r benthyciad a byddai'n cadw at siarter buddsoddi Cymru er mwyn sicrhau tegwch yn eu penderfyniadau lleol.

Drwy ranbarthu cyllid, byddai economïau lleol yn gallu ffynnu, gan y byddai canghennau lleol buddsoddi Cymru yn deall gwahanol nodweddion economaidd pob rhanbarth—gan ddeall marchnadoedd arbenigol a diwydiannau sy'n gweithio'n dda mewn ardal benodol. Byddai buddsoddi Cymru yn dod â chymorth ariannol i fusnesau bach ar garreg eu drws, a chredaf mai system o fanciau buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru sy'n atebol yn rhanbarthol yw'r ffordd ymlaen o ran gwneud hynny. Yn wir, bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod Civitas, y Sefydliad er Astudio Cymdeithas Sifil, hefyd wedi galw am well mynediad at gyllid, gan adeiladu ar y model o fanciau cymunedol lleol a geir yn yr Almaen sy'n adleisio ein cynigion ni.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn uchelgeisiol dros Gymru a chredwn ym mhobl Cymru ac mewn busnes yng Nghymru. Rydym am iddynt lwyddo a chredwn y gallai Llywodraeth Cymru wneud rhagor i sicrhau nad yw busnesau bach lleol yn cael eu gwrthod yn llwyr pan fyddant yn ceisio cael gafael ar gyllid. Cred y Ceidwadwyr Cymreig yn angerddol mewn datganoli go iawn drwy roi mwy o rym ac ymreolaeth i'n cymunedau lleol. Mae Buddsoddi Cymru yn enghraifft arall o'n hagenda bolisi ar leoliaeth i Gymru. Rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi ein cynnig.

Bydd yr Aelodau yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Bil treftadaeth ar ddiwedd pedwerydd tymor y Cynulliad. Gobeithio nad yw ei phenderfyniad i wrthod croesi un llinell biced ar ôl y llall yn golygu y bydd mewn perygl o fethu â chwblhau ei rhaglen ddeddfwriaethol ei hun.

Mae'r Bil yn gyfle i'w gwneud yn fwy cyffredin i grwpiau cymunedol llai fod yn gyfrifol am helpu i warchod a dehongli treftadaeth adeiledig o bwys lleol. Roedd y Gweinidog blaenorol yn rhagweld cyngrhair o'r sefydliadau bach hyn, a fyddai'n helpu i greu'r màs critigol sydd ei angen i gefnogi perchnogaeth gymunedol fwy uchelgeisiol a rheolaeth dros adeiladau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

That is a principle of enfranchisement that the Welsh Conservatives embrace. Members may be aware of my unease over how the Government uses the concept of independence—Cadw's status as a division of Welsh Government, for example. Therefore, I am pleased that the heritage Bill creates the possibility of an independent organisation. It will be up to us to argue that the structure, purpose and operation of such an alliance is entirely independent of Government, even if it is able to draw down taxpayers' money. It should also be accountable to the Assembly, not the Government, for how the money is spent.

Part 5 of the Localism Act 2011 in England is devoted to local empowerment, and Chapter 3 deals with a listing of assets of community value. It offers neighbourhoods some protection against owners disposing of or destroying locally important assets without a community group having time to prepare a purchase bid of its own. It is not clear to me where we are at the moment with an equivalent scheme in Wales. On the demand side, the heritage Bill will provide a role for local community groups. On the supply side, with the assistance of Big Lottery funding, the last Welsh Assembly Government introduced a community asset transfer programme, due to end in October 2012. I have not been able to find confirmation of how, if at all, that scheme is to be extended. Even if there were more restrictions, in practice, in that programme—it undermined its aims in some cases, as Janet Finch-Saunders mentioned earlier—those aims were good: building enterprise in communities to take on and develop community assets, contributing to the regeneration and economic sustainability of communities, promoting and strengthening the independence of third sector organisations by enabling social enterprise, and improving partnership working between the public sector, the third sector and others. It acknowledged that there would be risks, but also that they could be minimised and managed by the creative will of communities and their aspirations to move beyond the cycle of poverty to prosperity.

My region is particularly rich in iconic but vulnerable buildings. It is also rich in vociferous and competent campaigners who want to save or regenerate those buildings. Locally, they joke that the local authority seems determined to complete what the Luftwaffe started. Communities like Eden valley in Cumbria may have better answers, not just in neighbourhood planning but in stewardship of buildings too. Although the Minister is not here to respond to this debate today, perhaps he might issue a statement to advise us on how he and the Minister for Culture and Sport intend to progress and support community asset transfer.

14:22

William Graham [Bywgraffiad Biography](#)

Local government has long been of great importance to the people of Wales, and rightly so. The contribution of our local authorities to the social and economic progress of Wales over the last 100 years has been truly remarkable. By 1976, Wales had eight county councils and 37 district councils. Now, we have 22, which seems to be more or less the right balance, although we may wish to look again at the number of electors per councillor.

Mae honno'n egwyddor o freinio y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ei chroesawu. Efallai y bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'm hanesmwythd ynghylch sut y mae'r Llywodraeth yn defnyddio'r cysyniad o annibyniaeth—statws Cadw fel adran o Lywodraeth Cymru, er enghraifft. Felly, rwy'n falch bod y Bil treftadaeth yn creu'r posibilrwydd o sefydliad annibynnol. Ein lle ni yw dadlau bod strwythur, diben a gweithrediad cynghrair o'r fath yn gwbl annibynnol ar y Llywodraeth, hyd yn oed os yw'n gallu hawlio arian trethdalwyr. Dylai hefyd fod yn atebol i'r Cynulliad, nid y Llywodraeth, am y ffordd y caiff arian ei wario.

Mae Rhan 5 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn Lloegr yn ymwneud â grymuso lleol, ac mae Pennod 3 yn ymwneud â rhestru asedau o werth cymunedol. Mae'n cynnig rhywfaint o ddiogelwch i gymdogaethau rhag achosion lle mae perchnogion yn gwaredu neu'n dinistrio asedau sy'n bwysig yn lleol heb i grŵp cymunedol gael amser i baratoi cais prynu ei hun. Nid yw'n glir imi lle yr ydym arni o ran cynllun cyfatebol yng Nghymru. Ar yr ochr galw, bydd y Bil treftadaeth yn rhoi rôl i grwpiau cymunedol lleol. Ar yr ochr cyflenwi, gyda chymorth arian y Loteri Fawr, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad diwethaf Cymru raglen trosglwyddo asedau cymunedol, a oedd yn dod i ben ym mis Hydref 2012. Nid wyf wedi llwyddo i ddod o hyd i gadarnhad ynghylch sut y caiff y cynllun hwnnw ei ymestyn, os o gwbl. Hyd yn oed os oedd mwy o gyfyngiadau, yn ymarferol, yn y rhaglen honno—tanseiliodd ei nodau mewn rhai achosion, fel y nododd Janet Finch-Saunders yn gynharach—roedd y nodau hynny yn rhai da: meithrin mentergarwch mewn cymunedau i ddod yn gyfrifol am asedau cymunedol a'u datblygu, gan gyfrannu at adfywio a chynaliadwyedd economaidd cymunedau, hyrwyddo a chryfhau annibyniaeth mudiadau'r trydydd sector drwy alluogi menter gymdeithasol, a gwella gweithio mewn partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y trydydd sector ac eraill. Cydnabu y byddai risgiau, ond hefyd y gellid eu lleihau a'u rheoli drwy ewylllys greadigol cymunedau a'u dyheadau i symud y tu hwnt i gylch o dlodi i ffyniant.

Mae fy rhanbarth yn frith o adeiladau eiconig ond bregus. Mae hefyd yn frith o ymgyrchwyr uchel eu cloch a chymwys sydd am arbed neu adfywio'r adeiladau hynny. Yn lleol, maent yn cellwair bod yr awdurdod lleol yn benderfynol i bob golwg o gwblhau'r hyn a ddechreuodd y Luftwaffe. Efallai fod gan gymunedau fel dyffryn Eden yn Cumbria atebion gwell, nid yn unig o ran cynllunio cymdogaeth, ond gwarchod adeiladau hefyd. Er nad yw'r Gweinidog yma i ymateb i'r ddadl hon heddiw, efallai y gallai roi datganiad i'n hysbysu sut y mae ef a'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn bwriadu datblygu a chefnogi'r broses o drosglwyddo asedau cymunedol.

Mae llywodraeth leol o bwys mawr i bobl Cymru ers amser maith, a hynny'n briodol. Mae cyfraniad ein hawdurdodau lleol i gynnydd cymdeithasol ac economaidd Cymru dros y 100 mlynedd diwethaf wedi bod yn wirioneddol ryfeddol. Erbyn 1976, roedd gan Gymru wyth cyngor sir a 37 o gynghorau dosbarth. Erbyn hyn, mae gennym 22, sef y cydbwysedd cywir fwy neu lai yn ôl pob golwg, er efallai y dylem edrych eto ar nifer yr etholwyr fesul cynghorydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It has become apparent that all is not well in local government. There is much need for the Welsh Government to place greater emphasis on localism. The Welsh Government's lack of commitment towards this agenda is deeply disappointing and risks disengaging our people from politics. Local government should be judged primarily by the quality and efficiency of the service that it provides. No structure of local government, no matter how closely it identifies with communities, will be regarded by local people as satisfactory if it does not demonstrate value for money.

In opening our debate today, Janet Finch-Saunders reminded us of the immense value of community assets. She also reminded us of the right to bid, which will hopefully be implemented in Wales somewhere soon. There are illegal pay rises and council tax rises to pay for them. We admire her contribution on the democratic accountability of councils in Wales. Peter Black spoke of a Wales solution for the Localism Act 2011. While we certainly support that, we are unable to agree with much else of what he said, but he was quite right on democratic accountability. Russell George reminded us of his interest in the localism of energy powers and strategic development. He noted how deeply harmful that is to his community. We believe that he is quite correct in that and we will support him as best we can. Paul Davies reminded us again of the importance of a regional and local level in financing small businesses. Regional finance could be a tremendous economic driver in so many parts of Wales. Suzy Davies reminded us of the heritage Bill and the importance of accountability to the National Assembly for its enormous community benefits throughout Wales.

The Welsh Conservatives believe in local government, and it will be our stricture within this group, and in the future, to make sure that 'local' actually means what it says. We will support those groups that wish to make their community better. It is sad that the Welsh Government is not here to listen to some of the ideas that come from the opposite benches and from this bench today. However, I pay tribute to the Commission staff who are here making possible this debate. After all, this is the National Assembly for Wales. We are democratically elected and we should be here to hold the Government to account on every occasion that we are able.

Localism has not always been the most pragmatic agenda of the Conservative Party, but we now realise that, and are able to demonstrate it, through the excellent way in which Conservative-controlled councils in Wales have shown, time after time, how they can deliver for the people of their immediate communities. Deputy Presiding Officer, you will know that in this Chamber, over many years, the Conservatives have shown time and again that we will support local people in their endeavour and that we will take every opportunity that we can to hold the Welsh Government to account, and to remind it that there is no Government money—it is all taxpayers' money, which must be used correctly at a local level at the first possible instance.

Daeth yn amlwg nad yw popeth yn iawn mewn llywodraeth leol. Mae angen dirfawr i Lywodraeth Cymru roi mwy o bwyslais ar leoliaeth. Mae diffyg ymrwymiad o du Llywodraeth Cymru tuag at yr agenda hon yn hynod siomedig ac mae perygl y bydd pobl yn ymddieithrio oddi wrth wleidyddiaeth. Dylai llywodraeth leol gael ei barnu'n bennaf yn ôl ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Ni fydd unrhyw strwythur llywodraeth leol, ni waeth pa mor agos y mae'n uniaethu â chymunedau, yn cael ei ystyried yn foddhaol os nad yw'n dangos gwerth am arian.

Wrth agor ein dadl heddiw, cawsom ein hatgoffa gan Janet Finch-Saunders o werth enfawr asedau cymunedol. Gwnaeth hefyd ein hatgoffa o hawl i wneud cais, a fydd yn cael ei gweithredu yng Nghymru yn rhywle cyn hir gobeithio. Mae codiadau cyflog anghyfreithlon a chynnydd yn y dreth gyngor i dalu amdanynt. Rydym yn edmygu ei chyfraniad ar atebolrwydd democrataidd cyngorau yng Nghymru. Soniodd Peter Black am ateb Cymru i Ddeddf Lleoliaeth 2011. Er ein bod yn sicr yn cefnogi hynny, ni allwn gytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd, ond roedd yn llygad ei le o ran atebolrwydd democrataidd. Gwnaeth Russell George ein hatgoffa o'i ddiddordeb mewn trosglwyddo pwerau ynni a datblygu strategol i'r lefel leol. Nododd pa mor niweidiol ydyw i'w gymuned. Credwn ei fod yn llygad ei le o ran hynny a byddwn yn ei gefnogi gorau y gallwn. Fe'n hatgoffwyd gan Paul Davies unwaith eto o bwysigrwydd cyllid i fusnesau bach ar lefel ranbarthol a lleol. Gallai cyllid rhanbarthol fod yn sbardun economaidd aruthrol mewn cynifer o rannau o Gymru. Gwnaeth Suzy Davies ein hatgoffa o'r Bil treftadaeth a phwysigrwydd atebolrwydd i'r Cynulliad Cenedlaethol am ei fuddiannau cymunedol enfawr ledled Cymru.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn llywodraeth leol, a bydd yn ystyriaeth gan yn y grŵp hwn, ac yn y dyfodol, i sicrhau bod 'lleol' yn golygu yr hyn y mae'n ei ddweud. Byddwn yn cefnogi'r grwpiau hynny sy'n awyddus i wella eu cymuned. Mae'n resyn nad yw Llywodraeth Cymru yma i wrando ar rai o'r syniadau gan y meinciau gyferbyn, ac o'r fainc hon heddiw. Fodd bynnag, hoffwn dalu teyrnged i staff y Comisiwn sydd yma yn ei gwneud yn bosibl i'r ddadl hon gael ei chynnal. Wedi'r cyfan, hwn yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym wedi ein hethol yn ddemocrataidd a dylem fod yma i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif ar bob achlysur posibl.

Nid yw lleoliaeth bob amser wedi bod yn un o agendâu mwyaf pragmatig y Blaid Geidwadol, ond rydym yn sylweddoli hynny erbyn hyn, ac yn gallu ei dangos, drwy'r ffordd ragorol y mae cyngorau o dan reolaeth y Ceidwadwyr yng Nghymru wedi dangos, dro ar ôl tro, sut y gallant gyflawni dros bobl eu cymunedau cyfagos. Ddirprwy Lywydd, gwyddoch yn y Siambr hon, dros flynyddoedd lawer, fod y Ceidwadwyr wedi dangos dro ar ôl tro y byddwn yn cefnogi pobl leol yn eu hymdrechion ac y byddwn yn manteisio ar bob cyfle y gallwn i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, ac i'w hatgoffa nad oes y fath beth ag arian Llywodraeth—arian y trethdalwyr ydyw, y mae'n rhaid iddo gael ei ddefnyddio yn briodol ar lefel leol ar y cyfle cyntaf posibl.

14:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there is objection. I will defer voting under this item to voting time. Voting time now follows. I remind those Members who are here, who have been very keen to criticise those who are not here, that they need to conduct proceedings in the proper manner. Before I take the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Y cynnig yw y dylid cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Gohiriaf y bleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Bydd y cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Hoffwn atgoffa'r Aelodau hynny sydd yma, sydd wedi bod yn awyddus iawn i feirniadu'r rhai nad ydynt yn bresennol, fod angen iddynt gynnal trafodion mewn modd priodol. Cyn imi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5194.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 5, Ymatal 0.

Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5194.](#)

Motion agreed: For 11, Against 5, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5195.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 5, Ymatal 0.

[Result of the vote on motion NDM5195.](#)

Motion agreed: For 11, Against 5, Abstain 0.

14:28

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.28 p.m.

The meeting ended at 2.28 p.m.